# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD GWENER,<br>13 MAI 2016 am 3.30 o'r gloch y.p. | | FRIDAY,<br>13 MAY, 2016 at 3.30 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones, Raymond Jones

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

## R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Ebrill, 2016.

4 **YMGYNGHORIAD AR SAFLEOEDD I SIPSIWN A THEITHWYR YN YNYD MÔN - Y BROSES YMGYNGHORI** (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

5 **DADANSODDIAD O'R YMATEB I'R YMGYNGHORIAD - ARDAL CAERGYBI** (Tudalennau 15 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

**(Atodiad a gohebiaeth ynglwm)**

6 **DADANSODDIAD O'R YMATEB I'R YMGYNGHORIAD - CANOLBARTH YR YNYS** (Tudalennau 43 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

**(Atodiad a gohebiaeth ynghlwm)**

7 **DADANSODDIAD O'R YMATEB I'R YMGYNGHORIAD - ARDAL Y FENAI** (Tudalennau 63 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

**(Atodiad a gohebiaeth ynghlwm)**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, Richard Owain Jones, Dylan Rees a Dafydd R Thomas.<br><br>Mr. Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (Ar gyfer Eitem 5),<br>Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AD) (Ar gyfer Eitem 4)<br>Rheolwr Grantiau (JW) (Ar gyfer Eitem 5),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd AM Jones – Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams – Arweinydd y Cyngor.<br>Y Cynghorydd Alwyn Rowlands – Aelod Portffolio (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) (Ar gyfer Eitem 4).<br><br>Mr. J. Lee MBE – Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr – Cymunedau'n Gyntaf Môn;<br>Ms Rita Lyon – Rheolwr Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf Môn (Ar gyfer Eitem 5). |

---

Roedd Mr Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig) eisiau mynegi ei gydymdeimlad â theulu Mr. Geraint Elis, cyn-Bennaeth Addysg a fu farw'n ddiweddar. Roedd Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor hefyd yn dymuno mynegi eu cydymdeimlad â theulu Mr Elis.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

3 **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2016 yn gywir.

4 **DOGFEN POLISI PARTNERIAETH A RÔL SGRIWTINI YN MONITRO PARTNERIAETHAU**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Sgriwtini a’r Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) fod yr adroddiad hwn yn nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gan ei fod yn rhan annatod o arferion gweithio Awdurdodau Lleol; mae'n rhoi gwasanaethau gwell i gymunedau lleol. Nododd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2016 wedi cymeradwyo’r Ddogfen Bolisi fel sylfaen gadarn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod gwaith wedi cael ei wneud yn ddiweddar i lunio rhestr o bartneriaethau rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Hyd yma mae dros 200 o bartneriaethau posib wedi cael eu nodi. Bydd gwaith yn awr yn cael ei wneud i egluro rôl a gwerth ychwanegol y partneriaethau posib a nodwyd.

Rhoddodd y Swyddog Sgriwtini a’r Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar y Polisi Partneriaeth a rôl y Pwyllgor Sgriwtini yn monitro’r Partneriaethau. Dywedodd y Swyddog Effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod y Polisi Partneriaeth yn crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn ychwanegu at y datganiadau partneriaeth unigol sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth gyda'r Sector Gwirfoddol) a’r Siarter Cymunedol ar y Cyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar yr Ynys. Mae'r Polisi (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) yn canolbwyntio ar bartneriaethau lle mae'r Cyngor yn dewis gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Dywedodd hefyd fod gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rôl i adolygu trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. Bydd y Pwyllgor hwnnw’n canolbwyntio ar gael sicrwydd bod partneriaethau allweddol yn rheoli risg yn ddigonol ond nid yw ei rôl yn cynnwys adolygu cyfraniad a chanlyniadau partneriaethau, am fod hynny’n rhan o gylch gwaith Aelodau Sgriwtini.

Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at y rhesymau pam fod gweithio mewn partneriaeth o fudd i'r Cyngor a chymunedau Ynys Môn a hefyd at y meini prawf y mae’r Cyngor yn eu defnyddio i ddewis partneriaethau ac a amlygwyd yn yr adroddiad.

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini fod gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod lefel briodol o ymgysylltu democrataidd gyda phartneriaethau ac i sicrhau bod y gwaith a'r perfformiad yn gyson â blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac anghenion y cymunedau lleol ac yn ymateb iddynt. Wrth gyflawni ei rôl mae gan y Pwyllgor Sgriwtini nifer o feysydd posib y gallai eu hystyried, gan gynnwys:-

- Sgriwtinieiddio trefniadau llywodraethu;
- Sgriwtineiddio cyfraniad y Cyngor;
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth;
- Sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd a strategaethau a phartneriaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Holwyd ynghylch y perygl y byddai gwasanaethau a gynigir gan y sefydliadau partner a nodwyd yn cael eu dyblygu. Ymatebodd y Swyddogion y bydd pob sefydliad partner yn cael ei adolygu a'i werthuso er mwyn asesu ei werth am arian, ei werth ychwanegol ac unrhyw ddyblygu posib. Bydd yr ymarfer hwn yn fodd i swyddogion gael rhestr gyflawn o sefydliadau partneriaeth a fydd yn gweithio gyda'r Cyngor mewn partneriaeth yn y dyfodol;

- Goynnwyd a fydd 'asesiad risg' yn cael ei gynnal i werthuso gwaith partneriaeth gyda sefydliadau. Ymatebodd y Swyddogion y bydd rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys adolygu trefniadau rheoli risg sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.

- Holwyd ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref / Cymuned a Chynghrair Gymdeithasol leol a sefydlwyd i gymryd drosodd y gwaith o redeg gwasanaethau anstatudol a ddarperir gan y Cyngor o bosib. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori maes o law efo'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned a rhanddeiliaid ynghylch y Polisi Partneriaeth a'r 'pecyn cymorth' cysylltiedig. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod Aelodau Lleol yn rhoi gwybod i Swyddogion am unrhyw gynghrair gymdeithasol leol neu unrhyw grŵp sy'n gweithio o fewn eu cymuned. Bydd hyn yn caniatáu i Swyddogion gysylltu â sefydliadau o'r fath i asesu'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y dylid ymchwilio ymhellach i waith partneriaeth a'r posibilrwydd bod cymunedau lleol yn cymryd gwasanaethau diwylliannol drosodd; dylid ystyried cysylltu'n gyntaf gyda Chynghorau Tref / Cymuned ac wedyn gyda sefydliadau lleol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau:-**

- **Bod y Ddogfen Polisi Partneriaeth yn sylfaen gadarn i'r Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth;**

- **Bod y dasg o sgriwtineiddio partneriaethau'n cael ei chyflawni yn y lle cyntaf trwy ei hymgorffori ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor hwn;**

- **Gwneud trefniadau i adolygu effeithiolrwydd y dull hwn o sgriwtineiddio partneriaethau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol (yr adolygiad i gynnwys ystyriaeth o rinweddau model panel canlyniad Sgriwtini).**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**5 CYMUNEDAU'N GYNTAF**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai ar gynnydd y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn 2015/16.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn ffrwd waith allweddol sy'n cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor fel y cawsant eu nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2014/17 ac sy'n canolbwyntio ar adfywio cymunedau a datblygu'r economi, ynghyd â chynyddu opsiynau tai a lleihau tlodi. Nododd mai'r Awdurdod yw'r Corff Cyflawni Arweiniol a bod y ffynonellau cyllido yn cynnwys cyllid craidd, cyllid y Rhaglen Esgyn a chyllid Cymunedau ar gyfer Gwaith. Sefydliad Cyflawni yw Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf, fel cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen, yn gallu sicrhau cyllid allanol i gefnogi darparu gwasanaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal, sef cyllid nad yw'r Awdurdod, fel corff cyhoeddus, yn gymwys i wneud cais amdano o bosib. Mae'r Academi Alwedigaethol Gymunedol, sy'n darparu hyfforddiant achrededig i bobl 14-62 oed, yn targedu'r rhai sydd leiaf tebygol o fynychu darpariaethau prif ffrwd mewn colegau ac yn ddiweddar mae wedi ennill y wobr am y Fenter Gymdeithasol Orau yng Ngwobrau'r Sefydliad Tai Siartredig.

Cyflwynwyd adroddiad manwl gan y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn ar weithgareddau'r sefydliad. Bu cynnydd yn nifer y staff a gyflogir ar hyn o bryd gan y sefydliad ac yn yr arian a sicrhawyd ar gyfer y rhaglen. Cyfeiriodd at yr Academi Alwedigaethol Gymunedol a atgyfnerthwyd yn ddiweddar yn sgil derbyn cyllid dan y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Roedd £90,000 wedi'i ddyfarnu dros 2 flynedd i brynu peiriant torri gwair masnachol mawr a fydd yn golygu y gall CG Môn dendro am gontractau mwy o faint a chynhyrchu ffrwd incwm gynaliadwy. Prynwyd 2 fan hefyd sy'n uwchraddio'r fflyd o gerbydau. Prynwyd cerbyd cloddio bach i'w ddefnyddio gan

hyfforddeion a fydd yn cynorthwyo i arwain hyfforddiant yng Ngholeg Menai ar sut i ddefnyddio cerbydau cloddio mawr. Ariannwyd hyn drwy Horizon.
Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr i sicrhau y gellir cyfatebu'r swyddi gwag sydd ganddynt gyda'r bobl sy'n cymryd rhan yn yr Academi. Nododd bod 102 o bobl wedi cael gwaith trwy'r Academi hyd yma.

Amlinellodd y Rheolwr Grant faint o arian a sicrhawyd gan Cymunedau'n Gyntaf Môn a chyfeiriodd at Atodiadau 1 a 5 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ac a oedd yn tynnu sylw at y cyllid allanol y llwyddwyd i'w sicrhau.

Roedd Cadeirydd Cymunedau'n Gyntaf Môn, Mr. J. Lee MBE, yn dymuno mynegi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan staff CG Môn a pha mor falch ydoedd o lwyddiant y sefydliad.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Llongyfarchwyd Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. gan Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith a chanmolwyd y cyfleusterau a gynigir i helpu pobl mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Gofynnwyd a oes modd helpu ardaloedd eraill nad ydynt yn rhan o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Môn. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn fod cyllid Ewropeaidd wedi'i sicrhau i benodi Swyddog i weithio mewn wardiau sydd y tu allan i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Môn.

- Gofynnwyd a fydd CG Môn yn parhau i blannu blodau i wella delwedd Canol Tref Caergybi a'r cyffiniau. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn bod rhai pobl ifanc wedi bod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn ddiweddar tuag at staff pan oeddent wrthi'n paratoi ac yn plannu arddangosiadau blodau yng Nghaergybi. Nododd fod y mater wedi cael ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru ar sawl achlysur; cafwyd ar ddeall mai dim ond un person ifanc 15 oed y siaradwyd ag ef. Dywedodd nad oedd yn fodlon i'w staff gael eu bygwth ac y bydd rhaid atal y gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD: -**

- **Llongyfarch Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf am eu gwaith a'u llwyddiant sy'n enghraifft o weithio'n dda mewn partneriaeth gyda'r Cyngor;**

- **Nodi llwyddiant Cymunedau'n Gyntaf Môn yn helpu 102 o bobl i ddod o hyd i waith drwy'r Academi Alwedigaethol Gymunedol;**

- **Bod llythyr yn cael ei anfon at Heddlu Gogledd Cymru yn mynegi pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â digwyddiadau diweddar o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc a bygythiadau i staff CG Môn pan fônt yn paratoi a phlannu arddangosiadau blodau yn ardal Caergybi.**

**GWEITHREDU: Y Swyddog Sgriwtini i ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodir uchod.**

## 6 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD / IS-GADEIRYDD

Ni chafwyd diweddariad gan y Cadeirydd / Is-gadeirydd.

## 7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai, 2016.

Roedd rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn anfodlon bod trefniadau wedi eu gwneud i alw cyfarfod ar ddydd Gwener, 13 Mai 2016 i drafod yr Ymgynghoriad ynghylch Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Dywedwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno na ddylid cynnal cyfarfodydd ar ddiwedd yr wythnos.

Yn dilyn trafodaethau **CYTUNWYD y gwneir pob ymdrech i aildrefnu’r cyfarfod ar gyfer dechrau'r wythnos ganlynol, ond os nad oes modd cynnal cyfarfod bryd hynny oherwydd nad yw’r Swyddogion perthnasol ar gael, fod y cyfarfod yn dechrau am 3.30pm ar 13 Mai 2016.**

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mai, 2016.**

**GWEITHREDU: Y Swyddog Sgriwtini i gydgysylltu â’r Swyddogion perthnasol mewn perthynas â'r uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16:10

**Y CYNGHORYDD D R HUGHES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Sgriwtini 13 Mai 2016<br>Pwyllgor Gwaith 31 Mai 2016** |
| **Pwnc:** | **Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr – y broses ymgynghori** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaeth Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Shan L Williams<br>01248 752201<br>slwhp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad**: Sgriwtineiddio'r broses ymgynghori a chynnig sylwadau ar gyfer prosesau ymgynghori yn y dyfodol ynghylch dewis safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.

**Crynodeb cefndirol**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* hefyd yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer digon o safleoedd priodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Cynhyrchwyd dogfen o'r enw *Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016* (yr Asesiad) ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ystod hydref 2015 ac mae'n diweddaru'r asesiad blaenorol ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru a gyhoeddwyd yn 2013. Cymeradwywyd yr Asesiad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 8 Chwefror 2016 ac mae'r Asesiad newydd hwn yn nodi bod angen y canlynol ar Ynys Môn:

- Safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion y Teithwyr Newydd sy'n deillio o'r safle anawdurdodedig a oddefir yn Ffordd Pentraeth (pedair llain)
- Dau safle i'w defnyddio fel Mannau Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar hyd yr A55 ar Ynys Môn – un yn ardal Caergybi ac un yng nghanol yr Ynys.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses a gynhaliwyd. Mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y safle parhaol a'r ddau safle dros dro – pob un â'i argymhellion penodol.

**Y broses ymgynghori**

Rhwng 11 Chwefror, 2016 ac 11 Mawrth 2016 cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol ar safleoedd posib i Deithwyr a Sipsiwn ar yr ynys. Argymhellwyd y safleoedd hyn yn seiliedig ar asesiad gan swyddogion o 8 safle ar y rhestr fer – gyda 5 ohonynt yn safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt.

Mae'r broses wedi denu llawer iawn o ddiddordeb. Roedd yr ymarfer ymgynghori yn cynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid lleol trwy

- gyfres o 7 sesiwn galw i mewn rhwng 16 Chwefror a 24 Chwefror, 2016 a fynychwyd gan tua 215 o oedolion (gweler atodiad 1)
- Uwch Swyddogion, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Tai yn mynychu 8 o gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned
- Mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Bodffordd ar 25 Chwefror a Chyngor Cymuned Penmynydd ar 2 Mawrth 2016.

Roedd dogfen ymgynghori gyda mapiau a holiadur ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor ac yn y sesiynau galw i mewn. Anfonwyd copïau hefyd at fusnesau sy'n agos i'r 8 safle, perchnogion tir a thenantiaid – os oeddem yn gwybod eu henwau a'u cyfeiriadau cyswllt cyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus gychwyn. Gan nad oedd gennym yr holl fanylion i law, anfonwyd y ddogfen ymgynghori hefyd at y Ffederasiwn Busnesau Bychain, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Anfonwyd llythyrau a'r ddogfen ymgynghori hefyd at Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori arddangoswyd gwybodaeth yn amlwg ar wefan y Cyngor. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd ar Facebook a Twitter ac mewn datganiadau i'r wasg. Cynhaliwyd dwy sesiwn i Friffio Aelodau Etholedig ar 11/02/16 a 03/03/16. Cafodd yr Arweinydd ei gyfweld ar Radio Cymru a Môn FM ar ddechrau'r broses ymgynghori.

Cyflogwyd Eiriolwr Annibynnol i ymgysylltu â'r gymuned sy'n byw ar Ffordd Pentraeth a'r bobl sy'n byw yn y gwersyll anawdurdodedig ym Mona yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

**Ymatebion allweddol a dderbyniwyd ac a arweiniodd at yr argymhellion**

Mae gwybodaeth a gafwyd mewn ymatebion gan y Sefydliad Isadeiledd Amddiffyn, Grŵp Orthios, AMG Alpoco Limited, Dwr Cymru, Oaktree Environmental a'r Llu Awyr Brenhinol wedi codi cwestiynau ynghylch addasrwydd rhai o'r safleoedd yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Mae gwybodaeth bellach a chopïau o'r ymatebion ynghlwm wrth yr adroddiadau ar y safleoedd penodol.

**Rhai pethau y byddem yn eu gwneud yn wahanol mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol**

- Mabwysiadu dull mwy rhagweithiol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyfryngau lleol a hyfforddi Aelodau Etholedig a staff i osod cywair cadarnhaol fel cymorth i gynnal trafodaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch darparu safleoedd. Efallai y byddai mabwysiadu proses ymgysylltu gyda'r cyfryngau lleol, ynghyd â hyfforddi Aelodau lleol a staff ar fynd i'r afael â rhagfarnau, wedi arwain at naws mwy cadarnhaol mewn trafodaethau lleol. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar y cyd ag Aelodau Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2015 a fynychwyd gan 4 Aelod o Ynys Môn. Roedd sylw anffafriol yn y cyfryngau a gwrthwynebiad y cyhoedd yn atgyfnerthu ei gilydd i greu cyd-destun gelyniaethus ar gyfer yr ymgynghoriad ac roedd hynny'n anffodus.
- Darparu mwy o wybodaeth am Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr – er ein bod am annog trigolion yn y cymunedau sefydlog i gyfleu eu pryderon ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori, ni fyddem mewn unrhyw ffordd yn dymuno esgusodi'r rheini a wnaeth sylwadau hiliol, sarhaus ac ymfflamychol.
- Darparu gwell gwybodaeth am bosibilrwydd safle swyddogol trwy ddefnyddio lluniau a gwybodaeth o safleoedd presennol i ddangos y byddai safle swyddogol a reolir yn briodol yn lleihau'r problemau y mae cymunedau'n eu cael o ganlyniad i wersylloedd answyddogol / anawdurdodedig.
- Gwell dealltwriaeth o egwyddorion rheoli safleoedd yn effeithiol – byddai wedi bod o fudd i ddarparu gwybodaeth i staff i'w paratoi i ateb y cwestiynau a godwyd. Mae tystiolaeth o fannau eraill yn dangos bod safleoedd a reolir yn dda nid yn unig yn lleoedd da i fyw i Sipsiwn a Theithwyr ond hefyd yn gwella'r canfyddiad o'r gymuned deithiol yn llygaid y cymunedau sefydlog.
- Gwell cyfathrebu gyda'r aelwydydd sy'n byw ar hyn o bryd yn y safle a oddefir ar Ffordd Pentraeth, fel eu bod yn gwbl ymwybodol o'r broses ymgynghori, yn ymwybodol o'r opsiynau ac yn eu deall ac yn ymwybodol hefyd o'r sylw negyddol yn y cyfryngau a'r canfyddiadau a'r diddordeb cyhoeddus anffafriol gan y gymuned leol ac Aelodau.
- Pan nodwyd ardaloedd o dir fel rhai addas o ran y meini prawf asesu, ni chafodd ffiniau penodol eu dangos. Yn amlwg mae rhai o'r safleoedd yn fwy o lawer na'r ardal sydd ei hangen ar gyfer defnydd o'r fath ac mae'n anodd diffinio'r union leoliadau oherwydd efallai y bydd gofynion penodol yn codi yn y cyfnod dylunio ac yn ystod y broses o wneud cais cynllunio pan fo safle wedi'i ddewis.
- Roedd rhai o'r mapiau awyr a ddefnyddiwyd wedi dyddio, gan arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ymhlith nifer fechan o bobl a fynychodd y sesiynau galw i mewn. Fodd bynnag, y rhain oedd y ffotograffau Arolwg Ordnans diweddaraf oedd ar gael i ni.
- Cafwyd llawer o sylwadau yn ystod y broses ymgynghori yn datgan bod y system sgorio a ddefnyddiwyd yn ddiffygiol. Ni dderbynnir y datganiad hwn ond gellir gwella'r broses trwy fabwysiadu gwybodaeth gliriach am y meini prawf ar gyfer dewis safleoedd a dylai'r rhain gael eu cyfleu trwy bolisïau cyfathrebu sydd wedi'u datblygu'n dda.

**Rhagor o wybodaeth a gasglwyd ers / yn ystod yr ymgynghoriad**

Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ac o ganlyniad iddo:

- Adolygwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad
- Sefydlwyd beth yw barn y teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y gwersyll anawdurdodedig ym Mona ar y pryd a barn Teithwyr yr Oes Newydd yn y safle a oddefir ar Ffordd Pentraeth, a hynny drwy gymorth eiriolwr annibynnol.
- Cafwyd barn y sefydliadau allweddol megis y Sefydliad Isadeiledd Amddiffyn a Heddlu Gogledd Cymru.
- Cafwyd gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â lleoli safleoedd ar neu wrth ymyl tir diwydiannol.

**Camau nesaf**

Argymhellion o'r broses ymgynghori yw fod gwaith pellach ei angen i adnabod safleoedd aros dros dro, gan edrych ar safleoedd ym mherchnogaeth preifat ar yr Ynys. Bydd y gwaith yn golygu sgorio'r tiroedd yn erbyn y matrics sgorio a ddatblygwyd yn gynharach, gwneud ymholiadau gyda'r cyrff statudol perthnasol a'r perchnogion tir, cyn mynd allan i ymgynhgoriad. Amserlen ar gyfer y cam nesaf yw bydd angen cwblhau gan gynnwys cyflwyno argymhellion i Aelodau Etholedig erbyn canol Gorffennaf 2016. Bydd hyn yn galluogi cyflwyno'r safleoedd i'r Uned Cynllunio a Pholisi ar y cyd i'w yrru ymlaen i'r Swyddfa Rhaglen Ymchwilio Cynllun Datblygu LLeol, fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Mae cwrdd ag amserlen diwedd Gorffennaf 2016 yn hanfodol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Penderfyniad statudol |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Os datblygir safle parhaol, bydd hyn yn caniatáu i'r aelwydydd gael cyfeiriad parhaol ac yn cynyddu eu mynediad i wasanaethau lleol, a fydd, yn ei dro, yn lleihau anghydraddoldebau dros amser (e.e. iechyd, addysg, cyflogaeth).<br><br>Os datblygir safleoedd dros dro, bydd hyn yn cynyddu mynediad i fwynderau sylfaenol (fel dŵr, trydan, gwasanaeth casglu gwastraff) a fydd yn gwella ansawdd bywyd. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – digwyddiadau ymgynghori |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghoriad ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.<br>2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn, Chwefror 2016 Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 02/02/16. |

3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Cwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.

**Atodiad 1**

## Sesiynau Galw i Mewn
## Drop-in Sessions

| Lleoliad<br>Location | Dyddiad<br>Date | Niferoedd<br>Numbers |
|---|---|---|
| Canolfan Gymuned Bodffordd | 16.2.16 | 36 |
| Neuadd Llandegfan | 17.2.16 | 26 |
| Canolfan Penmynydd | 18.2.16 | 16 |
| Capel Disgwylfa, Gaerwen | 19.2.16 | 26 |
| Ysgol Gymuned y Fali | 22.2.16 | 7 |
| Canolfan Gymuned Kingsland | 24.2.16 | 51 |
| Neuadd Bentref Bae Trearddur | 24.2.16 | 53 |

www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

## Cynghorau Tref a Chymuned
## Town and Community Councils

| Cyngor – Council | Dyddiad - Date |
|---|---|
| Y Fali | 17.2.16 |
| Bae Trearddur | 22.2.16 |
| Llanfihangelesceifiog | 22.2.16 |
| Pentraeth | 23.2.16 |
| Bodffordd (a Threwalchmai) – cyfarfod cyhoeddus | 25.2.16 |
| Penmynydd – cyfarfod cyhoeddus | 2.3.16 |
| Cwm Cadnant | 2.3.16 |
| Caergybi - Holyhead | 7.2.16 |

www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

**Codi ymwybyddiaeth**

**Llythyrau a phecynnau**

Busnesau cyfagos i'r 8 safle;
Perchnogion tir a thenantiaid;
FSB/UAC/NFU;
Heddlu, Tan, Ambiwlans, Bwrdd Iechyd;
Cyfoeth Naturiol Cymru;
Llywodraeth Cymru.

**Gwybodaeth**
Gwefan y Cyngor;
Facebook a Twitter;
Datganiadau i'r wasg;
Sesiwn Briffio Aelodau 11/02/16;
Cynghorau Tref a chymuned.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Y Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 13 Mai 2016 - Sgriwtini<br>31 Mai 2016 – Pwyllgor Gwaith |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn – Safle Aros Dros Dro yng nghyffiniau Caergybi |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Lucy Reynolds, Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai |
| **Aelodau Lleol:** | Dafydd Rhys Thomas<br>Jeffrey M Evans<br>Trefor Lloyd Hughes<br>J Arwel Roberts<br>Raymond Jones<br>Robert Llewelyn Jones |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion:** ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir fel a ganlyn:

1. Ni ddylai unrhyw un o'r tri safle sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar gyfer darparu man stopio dros dro yng nghyffiniau Caergybi fynd ymlaen na chael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.
2. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ganfod safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am fan stopio dros dro yng nghyffiniau Caergybi fel y nodir yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn 2016 (statudol) ac i gydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014.
3. Dylai CSYM wneud gwaith pellach i ddeall faint o ddefnydd a wneir o borthladd Caergybi gan Deithwyr a Sipsiwn a faint o wersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd o ganlyniad i deithio i'r porthladd ac ohono. Dylai hyn gynnwys trafod efo awdurdod y porthladd a'r cwmnïau llongau.
4. Dylai CSYM barhau i gyflawni ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Mae'n rhaid cydbwyso anghenion preswylwyr sydd eisiau teimlo'n ddiogel a chael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau ar ddatblygiadau gan gydnabod hefyd bod rhaid i'r Cyngor weithredu yn

erbyn agweddau hiliol a herio sylwadau ymfflamychol.

**Rhesymau**

Ar gyfer pob un o'r tri safle a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, dygwyd sylw at ffactorau o bwys sy'n awgrymu eu bod yn anaddas. Mae crynodeb o'r ymgynghoriad i'w weld yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, cafodd rhai materion hollbwysig eu codi sy'n golygu na ellir ystyried bod y safleoedd yn addas ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ac i fynd ymlaen i gais cynllunio.

Yng. Argymhelliad 1

- Safle 1 Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi

  Mae'r tir hwn yn rhan o Barth Menter Llywodraeth Cymru. At ddibenion cynllunio mae'n syrthio oddi mewn i ddosbarthiadau defnydd busnes B1, B2 a B8. Mae busnesau presennol yn yr ardal wedi dadlau'n gryf y byddai creu man stopio dros dro yn y lleoliad hwn yn effeithio'n andwyol ar fusnesau presennol ac yn rhwystro buddsoddiadau pellach, sy'n creu swyddi yn yr ardal. Mae polisi yng Nghynllun Adnau'r Cyngor yn cefnogi'r ddadl hon, sef Polisi CYF2, Defnyddiau Atodol ar Dir Cyflogaeth, ac yn cadarnhau'r angen i warchod tir cyflogaeth ac na ddylid rhyddhau'r tir at ddefnyddiau atodol dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Mae Polisi CYF4, Defnyddiau Amgen ar gyfer Safleoedd Cyflogaeth, hefyd yn datgan na fyddai tir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 neu B8 ond yn cael caniatâd i ddefnyddiau amgen mewn amgylchiadau arbennig.

- Safle 2 Tir yn union i'r dwyrain o B&M (Homebase gynt), Caergybi

  Mae Grŵp Orthios, perchennog rhan o'r tir, wedi nodi bod eu cynlluniau'n cynnwys yr angen i ddefnyddio peth o'r tir a gallai ei ddynodi fel man stopio dros dro roi'r prosiect Orthios yn y fantol o ran ei isadeiledd a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

- Safle 3 Tir i'r de o Alpoco

  Mae tystiolaeth wedi dod i law gan AMG Alpoco UK Ltd y byddai defnyddio'r safle hwn fel man stopio dros dro yn peri risgiau difrifol o ran iechyd a diogelwch i ddefnyddwyr posibl y lle stopio. Mae hyn oherwydd

  a) bod y gwaith yn cynhyrchu powdr alwminiwm sy'n peri risg uchel o dân a ffrwydro

  b) Mae'r mynediad i gerbydau trwm at y gwaith yn rhedeg ochr yn ochr â'r safle arfaethedig i deithwyr.

  Mae gan berchnogion y safle hefyd bryderon am ddiogelwch yn y safle. Mae Grŵp Orthios wedi datgan bod y cebl a fydd yn cludo trydan o'r orsaf bŵer newydd i system y grid cenedlaethol yn rhedeg yn uniongyrchol trwy'r tir sy'n ffurfio'r safle hwn.

Yng. Argymhelliad 2

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am safle addas er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Cyngor i weithredu os nad yw'n gwneud cynnydd rhesymol. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd gynnwys safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd neu wynebu'r risg y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn canfod bod y cynllun yn ansicr.

Mae'r Heddlu wedi cefnogi'r angen am safle(oedd) trosiannol ar Ynys Môn, a hyd y gwyddant mae'r angen hwn yn deillio o'r rheini sy'n aros i deithio ar y fferi ymlaen i Iwerddon.

Yng. Argymhelliad 3

Mae'r ymgynghoriad wedi cychwyn sgwrs rhwng swyddogion y Cyngor a phreswylwyr, busnesau a Chynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr yn pasio trwy'r dref. Mae angen i hyn barhau fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddeall a mynd i'r afael â'r materion sy'n codi. Mae awdurdod y porthladd yn rhan hollbwysig o'r broses hon.

Yng. Argymhelliad 4

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn lleiafrif ethnig cydnabyddedig ac felly cânt eu gwarchod gan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae wrth greu dealltwriaeth a mynd i'r afael â rhagfarn tuag at y grŵp lleiafrifol hwn. Roedd tystiolaeth fod sïon a chamsyniadau ynglŷn â math a maint y safle arfaethedig wedi codi yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddilornus ac yn wallus.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr pan fo angen wedi'i adnabod. Mae fframwaith Llywodraeth Cymru, Teithio at Ddyfodol Gwell yn disgrifio bod Sipsiwn a Theithwyr ers amser maith wedi bod yn un o'r grwpiau mwyaf eithriedig ac ymylol mewn cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu trwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016, a wnaed yn unol â chanllaw statudol Llywodraeth Cymru ar Gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi nodi'r angen am safleoedd parhaol a safleoedd dros dro yn ardal y ddau awdurdod lleol yn yr hydref 2015.

**Math a maint y safleoedd y mae angen eu darparu**

Roedd Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd wedi canfod bod angen man stopio dros dro i hyd at 12 o garafannau yng nghyffiniau Caergybi. Y dystiolaeth o

hyn oedd y patrwm cofnodedig o wersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd yn ardal Caergybi.

**Gwybodaeth atodol gan gynnwys yr opsiynau a ystyriwyd:**

Cafodd y safleoedd a ganlyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel safleoedd posib ar y rhestr fer yng Nghaergybi

- Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi
- Tir yn union i'r dwyrain o B&M (Homebase gynt), Caergybi
- Tir i'r de o Alpoco

**Crynodeb o'r ymgynghoriad**

**Ymatebion i'r holiadur**


Cafodd 120 o holiaduron eu cwblhau'n llawn. Derbyniwyd 20 o holiaduron hefyd lle roedd yr holiadur wedi cael ei groesi allan neu lle roedd y datganiad o ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor i ddarparu safleoedd wedi cael ei groesi allan, fel arwydd o brotest yn erbyn y safleoedd yng Nghaergybi.

Mae'r tabl canlynol yn egluro'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf yn yr holiadur ymgynghori, oedd yn gofyn i ymatebwyr osod y safleoedd yn y drefn roeddent yn ei ffafrio – 1 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio fwyaf a 3 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio leiaf.

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis | Trydydd dewis |
|---|---|---|---|
| Plotiau Gwag, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi | 31 | 19 | 34 |
| Tir yn union i'r dwyrain o B&M (Homebase gynt), Caergybi | 32 | 33 | 19 |
| Tir i'r de o Alpoco | 21 | 32 | 31 |

Mae'r graff canlynol yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn olaf oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi pa ddau ffactor oedd bwysicaf iddynt yn eu dewis o safle.

**Ymatebion gan breswylwyr ac unigolion**




Mae'r siart uchod yn dangos bod yr ymatebwyr i'r holiadur yn ystyried mai'r prif ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddewis safle yw'r effaith ar eiddo preswyl cyfagos, effaith ar fusnesau cyfagos a'r effaith ar yr amgylchedd cyfagos.

Cyflwynwyd deiseb i'r Cyngor hefyd. Fe wnaeth yr unigolion oedd wedi arwyddo'r ddeiseb gefnogi'r datganiad a ganlyn ar frig y ddeiseb "*We the undersigned would like to oppose the Travellers sites in Holyhead*". Cafodd deiseb debyg ei harwyddo gan fusnesau yn ardal stad ddiwydiannol Penrhos. Roedd cyfanswm o dros 1000 o lofnodion wedi'u cynnwys ar y ddwy ddeiseb.

**Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd**

Mae'r tablau isod yn crynhoi themâu'r sylwadau a wnaed fwyaf trwy lythyr, e-bost neu'r holiaduron a materion eraill a godwyd sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu pa mor addas a rhesymol yw dewis safleoedd unigol.

| Mater | Y safle mae'r mater yn cyfeirio ato | Crynodeb o'r sylw gan ymgyngoreion | Ymateb y Swyddog i'r sylw<br><br>(darparwyd pan oedd modd rhoi eglurder neu wybodaeth ffeithiol) |
|---|---|---|---|
| **Niwed i'r amgylchedd ac effaith weledol** | Pob un | Bydd y dirwedd a'r olygfa yn cael eu difetha gan wastraff a sbwriel.<br><br>Mae gwersylloedd presennol yn creu llanast pryd bynnag y byddant yn digwydd yng Nghaergybi. | Byddai creu man stopio dros dro yn creu amgylchedd sy'n cael ei reoli'n well gyda chyfleusterau gwastraff. Mae absenoldeb mannau stopio dros dro yn golygu bod tebygolrwydd uchel y bydd gwersylloedd anawdurdodedig yn parhau yng Nghaergybi gyda'r effeithiau amgylcheddol sy'n dod yn sgil hynny. |
| **Goblygiadau cost** | Penrhos (cefnogi) | Os caiff Penrhos ei ddewis fel y safle a ffafrir, byddai hyn yn osgoi'r gost ychwanegol o greu lleiniau caled, a chan ei fod eisoes yn eiddo i'r Cyngor ni fyddai unrhyw gostau prynu'r tir. | Os oes angen llai o waith datblygu ar safle, bydd arbedion cost i'r Cyngor – dyma'r achos yma.<br><br>Mae gwersylloedd anawdurdodedig eisoes yn creu costau i'r Cyngor pan fyddant yn digwydd. Y bwriad wrth ddatblygu mannau stopio dros dro swyddogol gyda chyfleusterau gwastraff yw rheoli'r costau hyn yn well. |
| | Pob un | Ni ddylid darparu safleoedd gwersylla am ddim i'r grŵp hwn. Trigolion Ynys Môn fydd yn talu am y costau o lanhau ar eu | Mae gwersylloedd anawdurdodedig eisoes yn creu costau i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hôl.<br><br>Nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn cyfrannu'n ariannol i gymdeithas.<br><br>Os yw'r Cyngor wedi cael cyfarwyddyd bod rhaid iddynt wneud safle i Deithwyr a fydd y Teithwyr yn talu amdano?<br><br>Bydd rhaid gwario ychwaneg o arian i'r heddlu batrolio mwy ar yr ardal, ac mae adnoddau'r heddlu yn ddigon prin fel y mae hi.<br><br>Mae trigolion yn talu mwy o dreth am lai o gasgliadau bin a gwasanaethau y mae ar drigolion eu hangen. | Cyngor pan fyddant yn digwydd. Y bwriad wrth ddatblygu mannau stopio dros dro swyddogol gyda chyfleusterau gwastraff yw rheoli'n well y costau hyn . |
| **Yn rhy agos at ardal breswyl** | Tir yn union i'r dwyrain o B&M (gwrthwynebu) | Yn rhy agos at ardal breswyl<br><br>Bydd yn gostwng gwerth eiddo gerllaw / eiddo sy'n edrych dros y safleoedd. | Nodwyd. Fodd bynnag, nid yw effaith ar werth eiddo yn ystyriaeth gynllunio. |
| **Iechyd a Diogelwch trigolion Caergybi** | Pob un | Pryder ynglŷn â diogelwch trigolion Caergybi a'r ardaloedd o amgylch. Mae pobl eisiau teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn bryder i rieni sydd â phlant.<br><br>Bydd pobl yn teimlo'n fwy diamddiffyn, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl lle mae teuluoedd a phobl hŷn yn byw.<br><br>Er bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â safleoedd dros dro, yn y diwedd byddant yn troi'n safleoedd parhaol ac nid yn rhai dros dro gan y bydd y Teithwyr yn dewis peidio gadael.<br><br>Bydd yna broblemau rhwng pobl leol a'r | Nodwyd.<br><br>Mae traddodiad hir o Deithwyr Gwyddelig yn aros yng Nghaergybi ar eu ffordd i ac o Iwerddon drwy'r porthladd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Teithwyr a allai waethygu. | |
| **Trosedd ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol** | Pob un | Nid yw gorsaf yr Heddlu yng Nghaergybi ar agor 24 awr y dydd. Mae angen i safle teithwyr parhaol gael ei leoli yn ymyl tref sydd â'r gallu i Blismona ar unwaith. Mae problemau'n bodoli eisoes yng Nghaergybi gyda phobl yn gaeth i gyffuriau a mân droseddau, heb i hyn ychwanegu atynt.<br><br>Ofn ynghylch y cysylltiadau rhwng safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr a chynnydd mewn trosedd gan gynnwys fandaliaeth a dwyn. | Nodwyd.<br><br>Ni fedr y Cyngor gymryd i ystyriaeth ymatebion yn yr ymgynghoriad sy' cynnwys sylwadau hiliol, gwahaniaethol neu ymfflamychol. |
| **Effaith ar Fusnes a Thwristiaeth** | Tir i'r de o Alpoco (gwrthwynebu) | Ni ddylid ei ddewis gan y byddai'n effeithio ar dwristiaeth ac mae'n lleoliad dymunol i drigolion Ynys Môn hamddena ynddo. Nid yw'r AHNE yn addas i'r pwrpas hwn. | Nodwyd |
| | Tir i'r dwyrain o B&M (gwrthwynebu) | Mae maes gwersylla bychan tu cefn i'r safle arfaethedig hwn. Rwy'n siŵr na fyddai neb eisiau treulio eu gwyliau tu ôl i safle sipsiwn. | Nodwyd |
| | Plotiau gwag, Stad Diwydiannol Penrhos | Byddai safle ym Mhenrhos yn annog busnesau i beidio buddsoddi ymhellach yn ardal Penrhos. | Nodwyd |
| | | Mae gan Ynys Môn economi sydd wedi'i seilio'n gryf ar dwristiaeth. Ni ddylai'r Cyngor roi hyn yn y fantol trwy annog Teithwyr i ddod i Ynys Môn.<br><br>Mae datblygiadau positif yn yr ardal megis y Parc Eco a'r posibilrwydd y daw Land and Lakes i Gaergybi a bydd hyn yn dod â'r ardal i lawr. Un cam ymlaen a dau gam yn ôl.<br><br>Mae Caergybi eisoes yn ei chael hi'n | Nodwyd<br><br>Mae traddodiad hir o Deithwyr Gwyddelig yn aros yng Nghaergybi ar eu ffordd i ac o Iwerddon drwy'r porthladd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | anodd denu busnesau a bydd hyn yn andwyol i ddelwedd Caergybi. | |
| **Arall** | | Dylid ymgynghori ar safleoedd Llywodraeth Cymru. Ai LlC sy'n mynnu ar y safleoedd? Pam ddylai eu safleoedd hwy gael eu trin yn wahanol?<br><br>Straen ychwanegol ar feddygfeydd ac ysgolion lleol.<br><br>Byddai'n well eu lleoli oddi wrth ardaloedd preswyl a busnesau. Byddai ardal yng nghefn gwlad yn fwy addas.<br><br>Mae Ynys Môn eisoes yn darparu cannoedd o fannau stopio ar ffurf safleoedd carafannau a gwersylla. Dylai unrhyw un arall sy'n penderfynu parcio carafán mewn cilfan / ger priffordd dderbyn rhestr o safleoedd a dylid dweud wrthynt symud. | Bwriad y lle stopio dros dro yw darparu safle i adleoli gwersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd am ychydig nosweithiau yn yr ardal. Felly ni fyddai'n effeithio ar feddygfeydd ac ysgolion.<br><br>Dylai lleoliad y safle fod yn addas i atal gwersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghaergybi. |
| **Ymatebion gan sefydliadau a busnesau** | | | |

| Sefydliad | Mater | Crynodeb o'r sylw gan ymgyngoreion | Ymateb y Swyddog i'r sylw<br><br>(darparwyd pan oedd modd rhoi eglurder neu wybodaeth ffeithiol) |
|---|---|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Fe wnaeth Heddlu Gogledd Cymru ymateb i'r tri safle yn yr ymgynghoriad gyda'i gilydd | Cefnogi'r angen i gael safle(oedd) dros dro ar Ynys Môn.<br><br>Dylai'r Heddlu gael eu cynnwys yn y dyluniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer pob safle.<br><br>Ni ddylid gadael i fannau stopio dros dro ehangu / dod yn rhai parhaol (Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1) | |
| Cocon Construction Ltd | Gwrthwynebu'r plot ym Mhenrhos fel safle i Sipsiwn a Theithwyr | 1) Mae'r parc ar gyfer defnydd busnes ac nid at ddefnydd preswyl neu ddibenion eraill<br><br>2) Pryder bod natur y busnes yn ei wneud yn brif darged i rai sy'n dwyn. Byddai'r datblygiad o bosib yn felltith ar y busnes.<br><br>3) Ddim yn meddwl byddai'r grŵp y bydd y safle'n cael ei ddarparu ar ei gyfer angen cyfleuster a fyddai'n | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | costio arian cyhoeddus.<br><br>4) Annheg bod tir Llywodraeth Cymru ddim yn cael ei gynnwys. | |
| Llofnodwyr o: (DS ni ddarparwyd rôl/swydd y llofnodwr e.e. Rheolwr)<br><br>• Cocon Ltd<br>• Premier Graphics<br>• Môn Maintenance Services<br>• Anglesey Kitchens<br>• Môn Fire Management<br>• GMS Ltd<br>• HLS<br>• Cymell Ltd<br>• Poundstretcher<br>• Farmfoods<br>• Argos Ltd<br>• Brantano<br>• Peacocks<br>• New Look<br>• Poundland<br>• Wilkinsons<br>• ACS Ltd<br>• Penrhos Hire<br>• Lands End Tyres | | <u>Gwrthwynebu safle Teithwyr yng Nghaergybi</u><br><br>"Rydym ni fel siopau, busnesau a chyflogwyr lleol yn gwrthwynebu cynigion i greu safle teithwyr yn Stad Diwydiannol Penrhos neu yn unrhyw le arall yn nhref Caergybi oherwydd yr effeithiau andwyol y credwn y byddai'n ei gael ar y gymuned" | |
| Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol, Cyngor Sir Ynys Môn | Anaddasrwydd safle 1 Stad Diwydiannol Penrhos | Fe wnaeth adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn wneud 11 o bwyntiau yn gosod allan pam oedd yn ystyried nad yw plotiau gwag ar stad ddiwydiannol Penrhos yn addas fel man stopio dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn ardal | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Caergybi. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar bwysigrwydd economaidd y stad i Gaergybi a'r effeithiau ar fusnesau presennol a busnesau'r dyfodol.<br><br>(Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2) | |
| Grŵp Orthios (perchnogion tir sydd wedi'i gynnwys yn Safle 2 a Safle 3) | Safle 2 – tir i'r dwyrain o B&M<br><br>Safle 3 – tir i'r de o Alpoco | Mae Orthios yn gwrthwynebu defnyddio unrhyw un o'r safleoedd hyn fel mannau stopio dros dro. Dyma themâu'r gwrthwynebiad:<br>• diogelwch ffisegol<br>• diogelwch isadeiledd allweddol<br>• datblygiad yn y dyfodol<br>• risg i enw da a chyflogaeth<br><br>(Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3) | |
| AMG Alpoco UK | Safle 3 – tir i'r de o Alpoco | Gwrthwynebu'r safle ar y sail a ganlyn:<br>• mae'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd ochr y safle arfaethedig yn cael ei defnyddio gan gerbydau cludo sy'n creu risg i ddefnyddwyr posib y man stopio dros dro a risg i fusnes<br>• risg diogelwch i ddefnyddwyr unrhyw safle oherwydd bod y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwaith yn cynhyrchu powdr alwminiwm<br>• yr angen i gynyddu diogelwch yn safle'r gwaith<br><br>(Mae'r ymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 4) | |
| Cyngor Tref Caergybi | Pob safle yng Nghaergybi | Penderfynodd y Cyngor Tref yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth,<br><br>"Mae Cyngor Tref Caergybi yn gwrthod y safleoedd yng Nghaergybi gan na ellid eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cam hwn gan fod y Cynllun Datblygu Lleol yn awr wedi cau, a hefyd oherwydd bod dau o'r safleoedd a awgrymir yn agos at fusnesau ac mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Roedd y Cyngor Tref hefyd yn bryderus y byddai'r costau o sefydlu a chynnal a chadw'r safleoedd hyn yn cael eu hysgwyddo gan drethdalwyr Ynys Môn". | Fel y nodir yn yr adroddiad, mae'n rhaid darparu safleoedd dros dro er mwyn cwrdd â dyletswydd statudol y Cyngor pan fo wedi canfod bod angen yn bodoli. Mae costau'n deillio eisoes o gostau glanhau ac achosion llys sy'n deillio o wersylloedd anawdurdodedig. |
| Ysgrifennydd, Cymdeithas Trigolion a Thenantiaid Trearddur (TBR&TA) | Ffafrio safle 1. | Mae'r tir yn eiddo i GSYM felly mae'r gost yn llai | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coed Cymru | Ffafrio safle 1. | Archeoleg – mae'r tir ger Alpoco a'r tir ger B&M dal yn cynnwys olion o erddi Plas Penrhos | |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle nodwyd bod eu hangen. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn cynnwys cyllid cyfalaf i hwyluso lleoedd aros dros dro. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mar argymhelliad 4 o'r adroddiad yn cydnabod bod adnabod safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn fater lle mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hybu cydlyniant cymunedol ac atal camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr, sy'n grŵp gwarchodedig o dan y Ddeddf. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol, Cyngor Sir Ynys Môn
- Grŵp Orthios
- AMG Alpoco UK

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.
2. Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd, Chwefror 2016 – Pwyllgor Gwaith 08/02/16 a'r Pwyllgor Partneriaeth ad Adfywio Economaidd ar 02/02/16.
3. Cyflwyniad a chofnodion Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng Gwynedd a Môn 20/11/15 'Cwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.

This page is intentionally left blank

# Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

# Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Safleoedd

# Penrhos a Mona

## Mawrth 2016

**Paratowyd gan:**

Tudur H. Jones

Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol

## 1.0 Pwrpas y Papur

1.1 Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno sylwadau gan y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol ar y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn dweud bod Penrhos (Caergybi) a Mona yn safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

1.2 Yn y papur hwn hefyd, ceir crynodeb a chasgliadau o sylwadau'r Gwasanaeth ar gyfer y ddau safle a'r rhesymau pam fod y safleoedd hyn, yn ei barn ni, yn anaddas.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr pan fo angen wedi'i adnabod.

2.2 Gwnaed gwaith gan Gyngor Sir Ynys Môn i nodi safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys. O ganlyniad i hynny, lluniwyd rhestr fer o safleoedd sy'n cael eu hystyried fel rhai addas ar gyfer "Safleoedd Stopio Dros Dro" ac maent yn cynnwys Safle'r Heliport ym Mhenrhos (Caergybi) a Stad Ddiwydiannol Mona.

## 3.0 Safle'r Heliport, Penrhos, Caergybi

3.1 Ym marn y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol – sy'n adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru ynghylch eu safle nhw ym Mharc Cybi – nid yw hen Safle'r Heliport ar Stad Ddiwydiannol Penrhos yn addas fel safle stopio dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Caergybi.

3.2 Mae nifer o resymau am hyn a manylir arnynt isod:

1. Safle 2.4ha yr Heliport yw'r unig dir cyflogaeth sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ei feddiant yng Nghaergybi sy'n addas ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol ac a fedr fanteisio ar y cyfleon o'r buddsoddiadau ynni disgwyliedig. Petai'r safle hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn, yna ni fyddai unrhyw opsiynau eraill ar gael i CSYM ddatblygu yng Nghaergybi.

2. Caiff Stad Ddiwydiannol Penrhos ei chydnabod fel Parth Menter Llywodraeth Cymru (EZ3). O'r herwydd, mae'r busnesau sydd / a fydd wedi eu lleoli yno yn gymwys i gael pecynnau anogaeth a buddion sy'n fantais fawr wrth geisio denu mewnfuddsoddiad.

3. Mae Parc Cybi sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru yn barc busnes o bwys strategol ac ni fyddai LlC yn cymeradwyo / cefnogi unrhyw o'r prosiectau sbeciannol a fyddai'n galluogi busnesau sy'n fwy addas ar gyfer Penrhos i gael eu sefydlu yno (busnesau "cymdogion budr"). Yn y diwedd, bwriedir i fusnesau o bwys strategol / cenedlaethol gael eu

lleoli yno.

4. Mae CSYM yn ddiweddar wedi sicrhau caniatâd cynllunio i adeiladu 10 (deg) o unedau busnes hyblyg ar gyfer eu rhentu i'r sector preifat ar safle'r Heliport. Costiodd y gwaith datblygu hwn oddeutu £70,000 a chafodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol oherwydd mae'n cwrdd ag angen a nodwyd ac yn mynd i'r afael â methiant yn y farchnad mewn maes allweddol. Mae busnes eisoes wedi mynegir awydd i'r Gwasanaeth AE&Ch i symud i un o'r unedau mwy petaent yn cael eu codi http://www.anglesey.gov.uk/business/energy-island/energy-island- news/planning-approval-for-new-business-units-on-anglesey-heliport- site/127552.article

5. Yn dilyn prynu'r tir gan Alwminiwm Môn yn y 1990au, cytunwyd ar gyfamod fel rhan o'r cytundeb contract. Yn y cyfamod hwn, dywedwyd na fyddai modd i CSYM sicrhau newid defnydd o'r dosbarthiadau busnes B1, B2 a B8 heb gael cosb ariannol a fyddai'n daladwy i Alwminiwm Môn. Oherwydd y byddai angen newid defnydd (yn ôl pob tebyg i Sui Generis) byddai angen i hyn gael ei gytuno a'i gymeradwyo gan Alwminiwm Môn ar lefel Bwrdd ac mae'n debyg y byddai'n rhaid talu rhyw fath o iawndal ariannol hefyd. Mae angen gael eglurder ynglŷn â'r agwedd hon.

6. Mae'r Gwasanaeth AE&Ch yn ddiweddar wedi cyflwyno cais am arian drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adeiladu'r unedau hyn ac i ailddatblygu'r safle cyfan gan ddefnyddio arian UE/ Sgoriodd y prosiect yn uchel yn y rownd gyntaf a gallai hefyd sicrhau cyllid cyfatebol drwy'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

7. Yn dilyn Asesiad annibynnol o'r Effaith Economaidd mewn perthynas â manteision ariannol gweithredu'r prosiect, gallai adeiladu'r unedau hyn arwain at gynnydd oddeutu £2.5m o GVA i economi Ynys Môn.

8. Mae prosiect cyfalaf mawr sy'n werth £305,000 ac sy'n cael ei gefnogi gydag arian o gronfeydd craidd CSYM, yr NDA a'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn mynd rhagddo er mwyn ailddatblygu'r unedau cyfredol ym Mhenrhos (Rhifau 1 – 8) sydd, y cyfan ohonynt, â thenantiaid ynddynt ac wedi eu prydlesu. Nod y cynllun hwn yw moderneiddio a gwneud yr unedau'n fwy ynni-effeithlon a hwylus ar gyfer y sawl sy'n eu defnyddio.

9. Fel "safle dros dro i Sipsiwn" ni fyddai'r safle ond yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd – oddeutu 3 i 4 gwaith y flwyddyn – ni fyddai mewn unrhyw fodd yn sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r safle a'r potensial i greu a chynnal nifer sylweddol o swyddi mewn ardal heriol o safbwynt economaidd fel Caergybi.

10. Yn Lleol, mae Stad Ddiwydiannol Penrhos yn arwyddocaol o ran nifer y busnesau a'r nifer a gyflogir yno ac, yn ogystal, mae'n lleoliad pwysig iawn. Mae'n gartref i nifer o fusnesau rhanbarthol adnabyddus – Môn Maintenance Services, DU Construction ac ati – sydd wedi buddsoddi arian sylweddol i brynu'r tir a'r unedau busnes hunan-adeiladu sy'n cwrdd â'u gofynion penodol. Mae'r safle bellach yn cael ei gydnabod a'i ystyried fel 'hyb busnes' ac mae ei statws fel Parth Menter yn ategu hynny. Gallai safle i Sipsiwn a Theithwyr wneud drwg i'r stad.

11. Drwy drafodaethau anffurfiol gyda'r tenantiaid, maent wedi mynegi gwrthwynebiad cryf i unrhyw safle Sipsiwn arfaethedig ac mae un cwmni wedi dweud y byddant yn ystyried gadael eu huned. Bydd y tenantiaid hyn yn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar i'r perwyl hwn.

## 4.0 Stad Ddiwydiannol Mona

4.1 Yr un modd â stad Penrhos, nid yw'r Gwasanaeth AE&Ch o'r farn bod Stad Ddiwydiannol Mona yn un addas ar gyfer safle i Sipsiwn a Theithwyr.

1. Y safle 4 erw yw un o'r ychydig safleoedd cyflogaeth sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ei feddiant ym Mona sy'n addas ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol ac a fedr fanteisio ar y buddsoddiadau ynni disgwyliedig. Petai'r safle hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn, ni fyddai unrhyw opsiynau ar ôl i CSYM i ddatblygu ym Mona yn y dyfodol oherwydd cyfyngiadau o ran perchenogaeth y tir.

2. O'r 4 plot sydd ar gael ym Mona, cafwyd cynnig ar gyfer dau ohonynt. Cafwyd cynnig ar gyfer Plot 5B (sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn).

3. Mae CSYM yn ddiweddar wedi derbyn nifer o ymholiadau mewn perthynas â thir ym Mona gan gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r tir gan greu derbyniadau cyfalaf i'r Cyngor Sir o ganlyniad. Byddai'r cwmnïau hyn yn eu tro yn cynhyrchu gwariant ac yn creu cyfleon cyflogaeth yn y tymor byr, canolig a hir.

4. Mae'r Gwasanaeth AE&Ch o'r farn y gallai lleoli safle i Sipsiwn a Theithwyr ym Mona wneud drwg sylweddol i les economaidd yr ardal oherwydd ni fyddai cwmnïau sy'n chwilio am le newydd neu hyd yn oed ehangu eu busnesau cyfredol yn dymuno mynd yno.

5. Mae Stad Ddiwydiannol Mona yn arwyddocaol o ran nifer y busnesau a'r nifer a gyflogir ac, yn ogystal, mae'n lleoliad pwysig iawn. Mae'n gartref i nifer o fusnesau rhanbarthol adnabyddus – Hefin Thomas, AMP, Moduron Maethlu – sydd wedi buddsoddi arian sylweddol i brynu'r tir a'r unedau busnes hunan-adeiladu sy'n cwrdd â'u gofynion penodol. Mae'r safle bellach yn cael ei gydnabod a'i ystyried fel 'hyb busnes'. Gallai safle i Sipsiwn a Theithwyr wneud drwg i hynny.

6. Drwy drafodaethau anffurfiol gyda'r tenantiaid, maent wedi mynegi gwrthwynebiad cryf i unrhyw safle Sipsiwn arfaethedig ac mae dau sefydliad wedi dweud y byddant yn ystyried gadael eu hunedau. Petai hynny'n digwydd, byddai'r Cyngor Sir yn colli incwm. Bydd y tenantiaid hyn yn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar i'r perwyl hwn.

7. Waeth ba mor dda y câi unrhyw safle ei ddylunio / sgrinio o'r Stad Ddiwydiannol, mae posibilrwydd cryf y byddai'n achosi canfyddiadau negyddol ymysg datblygwyr/busnesau yn yr ardal ac na fyddant yn dymuno symud i Mona.

8. Mae lleoliad y Stadau Diwydiannol yn golygu eu bod i ffwrdd o gyfleusterau megis iechyd, addysg a siopau. Mae'r gwasanaeth lleol hyn yn hanfodol bwysig i sicrhau integreiddiad mewn cymunedau.

## 5.0 Casgliadau

5.1 Am y rhesymau uchod, mae'r Gwasanaethau AE&Ch yn gryf o'r farn nad yw Safle'r Heliport na Stad Ddiwydiannol Mona yn lleoliadau addas ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.

5.2 Mae sicrhau bod gan Ynys Môn gyflenwad digonol o dir cyflogaeth yn bwysig ac mae safleoedd strategol megis Caergybi a Mona yn hollbwysig i sicrhau y gall y Cyngor Sir alluogi a hwyluso cwmnïau o fuddsoddi a chreu cyfleon cyflogaeth ar gyfer trigolion Ynys Môn.

5.3 Byddai neilltuo'r ychydig dir cyflogaeth sydd gennym yn y ddau safle hwn i ddiben na fyddai'n creu cyflogaeth neu'n sicrhau ffyniant yn y dyfodol yn beryglus o gibddall a gallai niweidio dyheadau rhaglen Ynys Ynni Môn.

orthios Group

9th March 2016

Dr Caroline Turner
Assistant Chief Executive
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

CC: Housing Strategy & Development Manager
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

**PRIVATE & CONFIDENTIAL**

Dear Caroline

**Re: Formal Objection to the proposed Temporary Stopping Camp, Holyhead**

This letter is in connection for the proposed use of land as a Temporary Travellers' Stopping Camp in Holyhead. Having examined the plans and knowing the site well, Orthios wishes to object to the proposed use of Sites 7 and 8 (referring to the IoACC Consultation document) as Temporary Stopping Places for the Gypsy and Traveller community.

As you are aware Orthios has recently purchased the former Anglesey Aluminium Penrhos sites to develop our first Eco Park project which combines power generation with the production and processing of food. Successful delivery of the project will draw significant opportunities for the area including c.£1 billion of investment, 600 permanent jobs, 1,200 temporary jobs and create indirect benefits through related or supply chain.

Two of the proposed options identified in Holyhead area for Temporary Stopping Places (Sites 7 and 8) lie very close to the Orthios Eco Park site and a large proportion of land within both options is owned by the Orthios Group.

We have a number of concerns about this Consultation proposal and these issues can only undermine the viability of the project or be detrimental to the practical delivery of a complex scheme of this nature. These are outlined below:

**Physical Security**

Maintaining robust physical security over all areas of the site is vitally important throughout the different phases of the Orthios project; from the existing 'care and maintenance' position through the future development of demolition, construction, commissioning and operation of the various businesses.

There will be a massive increase in the value of equipment and material delivered to be stored on site (and other lay-down areas) leading up to and throughout the construction phases (from the end of 2016) and we anticipate this value being estimated at £100s of millions.

Whilst there will be great improvement to physical security, we believe that the transient nature of occupation proposed here represents a significantly higher risk to the site.

**Security of Key Infrastructure**

Two of the most valuable assets for Orthios going forward are the tunnel linking the site to the jetty at Holyhead port and the cable connecting the site to the national grid distribution network.

The tunnel will house a completely new conveyor system and be used to import over 1.5 million tonnes of biomass fuel (wood chips) from ships berthing at the jetty to the power station. Uninterrupted fuel supply (at a rate between 500-1,000 tonnes per hour) is critical to the continued running of the power station. Also we are looking to maintain a strip along much of the line of the tunnel for access to carry out repairs and maintenance to the conveyor and tunnel. This includes the land we own forming much of Site 7.

Similarly, the 132kv cable will transport electricity generated by the new power station on site between the Orthios connection point in the switchyard to the national grid substation at Wylfa. This is a critical connection to the Orthios power operation and the highly protected cable route runs directly through the land forming Site 8. National Grid protects this route with a 6m to 10m easement corridor along its length which is kept clear of vegetation and where the positioning of temporary and permanent buildings is forbidden.

Also to note, Site 8 lies adjacent to the route of a high pressure gas main supplying the site and surrounding area. The route, pipe and related equipment are protected by Wales & West Utilities via a 6m to 28m easement corridor.

The proposed temporary or permanent use of either Site 7 or Site 8 would significantly compromise our ability to use key Orthios project infrastructure.

**Future Development**

We have plans to expand and supplement the Orthios operations on site and a number of development opportunities are currently being appraised. These include building a hotel and visitor centre directly opposite the main site entrance (on land forming part of Site 7) and an extension to the Anglesey Eco Park, for employment purposes (on the Grey's Triangle land which adjoins Site 8).

The proposal of the Stopping Camp would hinder our flexibility to deliver potential future expansion plans.

**Reputational Risk and Employment**

The Orthios Group businesses plan to bring a large number of employment opportunities to the area. It is strongly believed that the plans for a Stopping Camp will hamper efforts to attract staff to the site. With 600 permanent jobs and 1,200 temporary construction jobs expected to be available, it would be a massive loss to the area should we be unable to attract workers to fulfil these roles.

**Funding**

The funding framework for the Orthios project is complex and involves the phased raising of increasingly larger sums of money.

As you will know, funding was secured to complete the site purchase on Christmas Eve 2015 so we already have commitments to existing funders and their advisors. We are currently working through a challenging and critically sensitive due diligence phase in the project and we firmly believe that the existing and prospective funders will not allow the project viability, value or delivery to be jeopardised by the sale of valuable land, or the compromising of key infrastructure or elements that undermine our ability to successfully deliver the Orthios Group business plans.

Under normal circumstances we would very much welcome the opportunity to work alongside and support the Council.

However, bearing the above in mind, we cannot recommend that the Orthios Board supports the proposal to establish a Temporary Stopping Camp on either Site 7 or Site 8. We will therefore not sanction the sale, leasing or grant of any rights over land (or assets) owned by the Orthios Group for such a purpose.

**Alternative Sites**

There must be more suitable sites available and we suggest the Council looks to the sites already being used by the Gypsy and Traveller communities and make one of them into a more permanent Temporary Stopping Camp i.e. possibly the existing encampment at the lay-by on the A5025 between Menai Bridge and Pentraeth (Site 1).

Yours sincerely

Ian Pritchard
Property Director
Orthios Group

**GYPSY TRAVELLER SITES CONSULTATION QUESTIONNAIRE**
**Temporary Stopping Place – Holyhead area**

**To respond to the consultation please complete the on-line consultation on the Isle of Anglesey County Council's web-site at** www.anglesey.gov.uk/gypsyandtravellerssites
Alternatively, you can leave a copy of the form with officials at any consultation event, or take a form or post it to:
**Housing Strategy and Development Manager, Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni LL77 7TW**
This form is also available in other formats, including large print and Braille by phoning 01248 752200.
**Please note that all responses must be received by 5pm on Friday 11th March 2016.**

In completing this form **I acknowledge that the Anglesey Council is obliged to provide suitable sites** for Gypsies and Travellers, in accordance with the Housing (Wales) Act 2014, and that the sites that form part of this consultation would meet the needs identified in the *Anglesey and Gwynedd Gypsy Traveller Accommodation Needs Assessment 2016,* adopted by the Council's Executive on 8th February 2016. Please note that responses may be published, though names and addresses will be redacted.

| | |
|---|---|
| Name | IAN PRITCHARD |
| Organisation | ORTHIOS GROUP |
| Address including Post Code | THE MOORINGS, ROWTON BRIDGE ROAD, CHRISTLETON, CHESTER, CH3 7AE |

Please rank the three sites identified using 1 for your preferred site and 3 for your least preferred site

| Site | Rank |
|---|---|
| • Vacant Plots Penrhos Industrial Estate, Holyhead | |
| • Land immediately to east of B&M (formerly Homebase), Holyhead | |
| • Land to the south of Alpoco | |
| None of the above – for your response to be considered, you must provide an explanation below | ✓ |

If you have chosen "None of the above" in response to site preference, please outline your reasons. You are also invited to suggest an alternative suitable site.

THE REASONS FOR OBJECTION ARE OUTLINED IN A LETTER FROM THE ORTHIOS GROUP TO ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL DATED 9TH MARCH 2016.

Please indicate below **up to two** of the factors which have been most important in your choice of location for the permanent residential site (please tick or put a cross below):

| | |
|---|---|
| Distance from essential facilities (i.e shops, GP) | |
| Impact on the environment | |
| Access on to the highway for Vehicles | |
| Impact on neighbouring residential properties | |
| Impact on adjacent businesses | ✓ |
| Other – please describe in a few words | |

AMG

AMG Alpoco UK

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council
29 FEB 2016
Swyddogol — Official
Gwasanaethau Tai — Housing Services

Housing Strategy and Development Manager
Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

26 February 2016

Dear Sir,

**RE: CONSULTATION OF GYPSY AND TRAVELLER SITES ON ANGLESEY**

I received the letter dated 11 February 2016 from Shan Williams detailing the proposed consultation on gypsy and traveller sites on Anglesey. On behalf of AMG Alpoco UK Limited I have completed the online questionnaire but I feel it is necessary to send a letter to better explain the reasons why the temporary site should not be located next to the AMG Alpoco UK Limited site (site 8). The mains reasons are as follows:

- Haulage access to the Alpoco plant runs alongside the proposed travellers site. The continuous use of the access road by Alpoco & North Wales Shipping, would increase the likelihood of accidents & incidents to the drivers, travellers and especially young children.
- Haulage access to the Alpoco, if also used by the travellers, could cause a major disruption to the vital deliveries to our plant and affect the profitability and viability of our company.
- The Alpoco site is protected by an electric fence as we previously experienced metal thefts. Young children especially, could ignore the signs, and not be aware of this hazard.
- The potential for undeliberate or unauthorised entry to the Alpoco site would be increased, exposing persons entering the plant to safety hazards. This would increase the likelihood of injury to themselves or employees on the plant. Security would need to be increased at a cost to our company.
- Our environmental permit has noise level limits set at the boundary of the Alpoco plant. The proposed travellers' site would potentially be exposed to noise as it is so close to the plant. The plant runs 24/7 continuous shifts.
- The company produces aluminium powder and an emergency situation on site (fire or explosion) would put the travellers at risk, due to their site being so close to the plant.
- The former Anglesey Aluminium smelter, next to Alpoco, has been given approval for the development of a biomass plant and the construction and subsequent operation of the plant would impact the travellers.

I hope these concerns are taken seriously and a more appropriate site chosen as a temporary stopping place.

Yours sincerely
For and on behalf of AMG Alpoco UK Limited

L Scaife

Leonora Scaife
Finance Director

AMG Alpoco UK Limited
**AMG ADVANCED METALLURGICAL GROUP N.V.**
Registered Office: Fullerton Road, Rotherham, S60 1DL, United Kingdom
Registered in England No. 961050
amg-s.com | amg-nv.com

**From:** Harrison, Nigel S (T/Chief Superintendent 1710)
[mailto:Nigel.Harrison@nthwales.pnn.police.uk]
**Sent:** 09 March 2016 13:20
**To:** Caroline Turner
**Copi/Cc:** Armstrong, Mark (T/Chief Inspector)
**Subject:** RE: Gypsy / Traveller sites consultation

Caroline

Below I have annotated the North Wales Police response to the consultation and I thank you for the opportunity.

- We support the need to have transit site(s) within Anglesey as clearly we have had a number of groups of travellers passing through Anglesey which have formed unofficial sites in the past. Usually from our knowledge they are waiting for onward ferry travel to Ireland.
- We recognise there is currently a group of people living in a layby adjacent to the A5025 on the outskirts of Pentraeth who clearly have a need.

As a Police Service we wish raise the following points

- We would ask that any Temporary Stopping Places ( TSP) or permanent site that are adopted when entering the planning phase that our Community Safety department is given the opportunity to pass comment on the design to seek to minimise the risk of Crime and Disorder as we do now with a number of other developments
- We seek to be sighted on any management plans put in place for the chosen sites so that we can seek to engage with communities that will be residing at these sites.
- At present we have very little concerns in relation to Crime and Disorder or Public Safety at the Pentraeth tolerated site. However we make this assessment based on the current residents and clearly any development of this site may alter the population. Our concern is one of public safety in so much the proximity of the site to a busy 'A' road gives us concern should there be children resident which there are not at this time. There are clear concerns of how they would be safeguarded to prevent them egressing on to the road which is fast moving and busy. We are led to believe that the current inhabitants will need to be relocated whilst building work is completed as such does this pose the risk of children being part of new family units. This risk is possible at the other sites however would appear much more likely at the Pentraeth site. Clearly there maybe options to mitigate against this risk but we feel it is worthy of note.
- We would also be keen that the TSPs do not expand and/or become permanent sites as our comments are predicated on the current options. Clearly multiple permanent sites would require a different engagement strategy from ourselves and potentially deployment model.

At this point the police have no further comment to make on the options provided.

Nigel Harrison
Prif Uwcharolygydd Dros Dro - T / Chief Superintendent

Lucy

# CAERGYBI/HOLYHEAD

*Cyngor Tref / Town Council*

**Our ref: CLE/PRS/TC2A**
**9 March 2016**

**Dear Sir/Madam,**

**GYPSY TRAVELLER SITES CONSULTATION : END DATE FRIDAY 11 MARCH 2016**

**A presentation was made by officers of the Anglesey County Council at the Holyhead Town Council meeting held on Monday 7 March 2016.**

**The Holyhead Town Council resolved as follows:-**

**"That the Holyhead Town Council reject the sites in Holyhead as they could not be included in the Local Development Plan at this stage as the Local Development Plan had now closed and also that two of the sites suggested were close to businesses and in areas of outstanding natural beauty. Also, the Town Council was concerned that the cost of setting up and maintaining these sites would fall on the rate-payers of Anglesey."**

**I should be obliged if you could include this resolution in the consultation replies.**

**Yours Sincerely,**

.................................
**C Ll Everett**
**Town Clerk/Financial Officer**

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council
10 MAR 2016
Swyddogol Sensitif – Official Sensitive
Gwasanaethau Tai – Housing Services

**Housing Strategy and Development Manager**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

CLIFFORD LLOYD EVERETT A.I.C.C.M · CLERC Y DREF / TOWN CLERK & SWYDDOG CYLLIDOL/FINANCIAL OFFICER
CYNGOR TREF CAERGYBI · NEUADD Y DREF · NEWRY · CAERGYBI · LL65 1HN
HOLYHEAD TOWN COUNCIL · TOWN HALL NEWRY STREET · HOLYHEAD · ANGLESEY · LL65 1HN
ffôn / tel 01407 764608 · ffacs / fax 01407 765156
ebost / email TOWNCLERK@HOLYHEADCOUNCIL.CO.UK
safle we / website WWW.HOLYHEADTOWNCOUNCIL.COM

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 13 Mai, 2016 – Sgriwtini<br>31 Mai 2016 – Pwyllgor Gwaith |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn - Man Aros Dros Dro - Canolbarth yr Ynys |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gareth Jones - Uwch Swyddog Eiddo<br>01248 752253<br>rgarethjones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Y Cynghorwyr RG Parry OBE, D Rees, N Roberts |

**A –Argymhelliad / Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion:** yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, argymhellir y canlynol:

1. Ni ddylid bwrw ymlaen gyda'r un o'r ddau safle yr ymgynghorwyd yn eu cylch na'u cynnwys 'chwaith yn y Cynllun Datblygu Lleol.

2. Dylai CSYM barhau i weithio i adnabod safleoedd eraill i gwrdd â'r angen am fan aros dros dro yng nghanolbarth yr ynys fel y nodir yn Asesiad Statudol Gwynedd ac Ynys Môn o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 ac i gydymffurfio gyda dyletswyddau'r Cyngor dan Ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014.

3. Dylai CSYM barhau i gyflawni ei rôl o ran hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn sicrhau balans rhwng anghenion trigolion i deimlo'n ddiogel a'r angen i ymgynghori gyda nhw ar faterion datblygu a'r gydnabyddiaeth bod raid i'r Cyngor weithredu i fynd i'r afael ag agweddau hiliol a herio sylwadau ymfflamychol.

**Rhesymau**

**Argymhelliad 1**

Dygwyd sylw at ffactorau o bwys yn ystod y broses ymgynghori mewn perthynas â'r ddau safle ar Stad Ddiwydiannol  Mona sy'n golygu eu bod yn anaddas.  Mae

crynodeb o’r ymgynghoriad wedi ei ddarparu yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, codwyd rhai materion hollbwysig sy’n golygu nad oes modd ystyried bod y safleoedd hyn yn addas i’w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol nac i fod yn destun cais cynllunio

Mae'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (DIO), ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn gwrthwynebu’r ddau safle am resymau diogelwch. Maent yn nodi y bu dwy ddamwain ar y safle yn ddiweddar a bod y malurion wedi disgyn i’r ddaear yn ardaloedd y safleoedd hyn. Maent yn nodi hefyd bod sbwriel yn cael ei daflu dros y ffens derfyn yn aml ac y gall hynny ddenu adar sy’n achosi perygl i awyrennau.

Roedd llythyr y Llu Awyr Brenhinol hefyd yn cyfeirio at faterion diogelwch yn yr awyr a materion gweithredol yn ymwneud â thresbasu a gadael gwastraff yn anghyfreithlon ac y gallai’r safleoedd arfaethedig gynyddu’r risg o dresbasu ar y llwybr glanio a difrod i awyrennau.

**Argymhelliad 2**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am safle addas er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Cyngor i weithredu os nad yw cynnydd rhesymol yn cael ei wneud. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd gynnwys safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd neu wynebu risg uchel na fydd y cynllun yn cael ei weld fel un cadarn.

**Argymhelliad 3**

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn lleiafrif ethnig cydnabyddedig, ac felly’n cael eu diogelu gan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae o ran creu dealltwriaeth o’r grŵp lleiafrifol hwn a rhoi sylw i ragfarn tuag ato. Roedd tystiolaeth bod sibrydion a chamsyniadau ynghylch math a maint y safle arfaethedig wedi dod i’w wyneb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddifrïol ac yn anghywir.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae’r Fframwaith ‘Teithio at Ddyfodol Gwell’ gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel un o’r grwpiau mwyaf eithriedig ac ymylol yn y gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi sylw i’r anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu drwy wella cyfle cyfartal i bawb.

Mae Asesiad Statudol Gwynedd ac Ynys Môn o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi nodi’r angen am safleoedd parhaol a safleoedd dros dro yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng Chwefror a Mawrth 2016, codwyd gwersyll anawdurdodedig gan grŵp o sipsiwn-deithwyr ar dir yn Stad Ddiwydiannol Mona. Ymgynghorwyd gyda'r holl aelwydydd yn y gwersyll gan ddefnyddio ymgynghorydd o Unity, sefydliad sydd â phrofiad o gynnig gwasanaeth eiriolaeth i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Gweler eu sylwadau yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

**Y math o safleoedd y mae angen eu darparu a'u maint**

Mae tystiolaeth o gofnodion y Cyngor ei hun o wersylloedd anawdurdodedig yn dangos mai ar goridor A5 – A55 y mae'r angen mwyaf.

Roedd Asesiad Statudol Gwynedd ac Ynys Môn o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 yn nodi bod angen man aros dros dro ar gyfer canolbarth yr Ynys a fyddai'n medru cynnwys hyd at 15 o garafannau.

Mae Stad Ddiwydiannol Mona yn lle aros poblogaidd i Sipsiwn a Theithwyr, gyda grŵp cymharol fawr o Sipsiwn a Theithwyr yn dewis aros am 2-3 wythnos ym mis Gorffennaf / Awst bob blwyddyn, er bod gwersylloedd diawdurdod hefyd wedi ymddangos dros fisoedd y gaeaf.

**Gwybodaeth ategol gan gynnwys opsiynau a ystyriwyd:**

Cafodd dau safle, fel y nodir isod, eu cynnwys yn y broses ymgynghori fel safleoedd a allai fod ar restr fer ar gyfer canolbarth yr Ynys;

- Tir gwag ar Stad Ddiwydiannol Mona – Safle A (agosaf at faes awyr Mona)
- Tir gwag ar Stad Ddiwydiannol Mona – Safle B

**Crynodeb o'r ymgynghoriad**

- **Ymatebion i'r holiadur**


Cwblhawyd a dychwelwyd 92 o holiaduron.

Mae'r tabl isod yn nodi'r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf yn yr holiadur a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi pa un o'r safleoedd yr ymgynghorwyd arnynt fyddai orau ganddynt, gan nodi 1 i'r safle a ffefrir a 2 ar gyfer yr un a ffefrir leiaf. Dewisodd 60 o ymatebwyr i beidio dewis y naill safle neu'r llall.

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis |
|---|---|---|
| Tir gwag ar Stad Ddiwydiannol Mona – Safle A | 24 | 8 |

| | | |
|---|---|---|
| Tir gwag ar Stad Ddiwydiannol Mona – Safle B | 8 | 24 |

Mae'r graff isod yn dangos yr ymateb a gafwyd i'r cwestiwn olaf yn yr holiadur a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi pa ddau ffactor oedd bwysicaf yn eu dewis o safle.




Mae'r siart uchod yn dangos bod yr ymatebwyr i'r holiadur yn ystyried bod yr effaith ar fusnesau cyfagos yn ffactor pwysig ar gyfer dewis safle, ochr yn ochr â'r effaith ar eiddo preswyl cyfagos a materion eraill.

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus gan Gyngor Cymuned Bodffordd ac fe'i cynhaliwyd ar Faes Sioe Amaethyddol Môn ar 25 Chwefror, 2016, gydag oddeutu 130 o bobl yn bresennol.

- **Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd**

Mae'r tablau isod yn crynhoi thema sylwadau a wnaed amlaf drwy lythyr, e-bost neu holiaduron a materion eraill a godwyd sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu addasrwydd a rhesymoldeb dewis safleoedd unigol

'Roedd y materion a nodir isod yn gyffredin i safleoedd A a B ar Stad Ddiwydiannol

Mona yn bron i bob achos.

| **Mater** | **Crynodeb o sylwadau gan ymgyngoreion** | **Ymateb Swyddogion i'r sylwadau (ar yr amod bod modd darparu eglurhad neu wybodaeth ffeithiol)** |
|---|---|---|
| Nid mewn lleoliad gwledig | Byddai'n cael effaith negyddol ar archeoleg, trigolion lleol, ffermio a chymunedau busnes | Nodwyd |
| Risg i'r ddarpariaeth Parcio a Theithio | Pryder ynghylch parhau i ddarparu'r cyfleuster Parcio a Theithio a'r risg y byddai llai o leoedd parcio | Nodwyd |
| Tir llygredig | Cyfeiriad at lygredd ar safle B. | Nodwyd |
| Effaith negyddol ar fusnesau lleol a chreu swyddi | Dylid blaenoriaethu a diogelu datblygiad economaidd a chreu swyddi | Nodwyd |
| Diogelwch gweithwyr busnesau | Gweithwyr yn gyndyn o weithio'n hwyr gyda'r nos rhag ofn y byddent yn cael eu bygwth. | Nodwyd |
| Yswiriant eiddo a diogelwch | Risg bosib o gynnydd mewn costau yswiriant a chostau diogelwch eraill cysylltiedig. Nid yw un busnes yn benodol ond yn gallu cael yswiriant gan un o ddau gwmni. Byddai methiant i gael diogelwch yswiriant yn ergyd ddifrifol i weithrediadau'r busnes gan roi 45 o swyddi lleol yn y fantol. | |
| Diogelwch yn y safleoedd busnes sydd eisoes yn bodoli | Teithwyr, plant a'u cŵn yn crwydro ac yn mynd i safleoedd busnes heb ganiatâd a fyddai'n bryder iechyd a diogelwch | Byddai creu safle aros dros dro yn creu amgylchedd y byddai modd cael mwy o reolaeth drosto a byddai modd gosod cosbau am anwybyddu rheolau'r safle |
| Troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Cynnydd posibl mewn trosedd, fandaliaeth, lladrad. Pobl leol mewn sefyllfa fwy bregus a mwy o dresmasu ar eiddo preifat | Ni all y Cyngor ystyried ymatebion i'r ymgynghoriadau sy'n cynnwys sylwadau hiliol, sarhaus, camwahaniaethol, ac ymfflamychol. Nid oes gan Heddlu Gogledd Cymru gofnod o unrhyw gynnydd mewn troseddau pan mae |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sipsiwn a Theithwyr ar y safle. |
| Plismona a monitro’r safle dros dro | Pwy fyddai’n plismona ac yn monitro’r safle dros dro ar sail reolaidd a sut? | Nodwyd |
| Tir ym meddiant Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Ynys Môn | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio ei dir ei hun o fewn Pyrth Menter, dylai'r un egwyddor fod yn berthnasol i dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn | Nodwyd |
| Pryderon mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y bobl fydd yn byw ar y safle dros dro. | Mae rhai busnesau yn gweithredu 24/7 gyda cherbydau mawr a pheiriannau trwm. Dylid ystyried effaith y sŵn sy’n gysylltiedig â bod yn agos at lain glanio’r Llu Awyr Brenhinol a stad ddiwydiannol fel y cyfeirir at hynny mewn polisïau cynllunio perthnasol a nodiadau cyngor technegol | Nodwyd |
| Gadael gwastraff a sbwriel arall | Gwastraff, sbwriel a deunyddiau eraill yn cael eu gadael ar y safle, sydd wedyn yn cael eu chwythu ar draws y stad gyfan. Hefyd yn denu fermin. | Byddai creu man aros dros dro yn creu amgylchedd y byddai modd cael mwy o reolaeth drosto a chyda cyfleusterau ar gyfer sbwriel. Byddai diffyg safleoedd aros dros dro yn golygu y byddai’n debygol iawn y byddai gwersylloedd anawdurdodedig yn parhau ac yn cael effaith ar yr amgylchedd. |
| Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Cyfeirir at wahanol adrannau o fewn y canllawiau ynghylch pam na fyddai’r ddau safle yn addas | Nodwyd |
| Diogelu Tir Cyflogaeth o dan bolisïau cynllunio perthnasol | Mae polisi yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn sy’n adnabod ac yn diogelu tir sy'n gysylltiedig â chyflogaeth rhag datblygiadau manwerthu, hamdden neu dai. Mae polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – y fersiwn adneuol yn ceisio diogelu tir ac unedau at ddibenion | Nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflogaeth a busnes, ac ni chaniateir gwneud defnydd amgen o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddiogelir ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig. | |
| Maes awyr gweithredol y Llu Awyr Brenhinol ym Mona | Mae safle'r Llu Awyr Brenhinol ym Mona yn faes awyr llanw ar gyfer y Llu Awyr Brenhinol yn y Fali a gwneir defnydd helaeth ohono. Bu dwy ddamwain yno mewn hanes diweddar a disgynnodd y malurion o'r damweiniau hynny o fewn ardal safle A.<br>Byddai cynnydd pendant yn y risg i'r llain lanio a difrod i'r awyrennau gan wrthrychau a'r effaith ar ddiogelwch.<br>Mwy o achosion o daflu sbwriel yn anghyfreithlon a thresbasu.<br>Mwy o bobl yn byw ger neu o fewn cylched awyrennau jet cyflym.<br>Mae gan Lu Awyr Brenhinol Mona barth diogelu statudol - parthau diogelu technegol ac uchder - ynghyd â pharth diogelu pe bai awyren mewn gwrthdrawiad ag adar.<br>Gwerthwyd y tir y mae'r ddau safle arfaethedig arnynt i'r Cyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Amddiffyn yn 1994.<br>Dywed cymal 3a o'r trawsgludiad "That neither the property or any part thereof shall be used….for any purpose which may be or become a nuisance, danger, damage or annoyance to the owners or occupiers for the time being of the Retained Land or any part thereof"<br>Mae cymalau 4a a b hefyd | Nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | yn berthnasol i safle A ac maent yn nodi “the Purchaser and its successors in title will not at any time….within the land…..erect build or place any building or structure of any description whatever whether permanent or temporary and whether moveable or not without the previous consent in writing of the vendor….”<br>Mae'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn yn datgan na fyddai defnyddio safle A neu safle B yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor fel y cytunwyd yn y cyfamod cyfyngu uchod. | |

**Ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr sy’n gwersyllu ar Stad Ddiwydiannol Mona**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori roedd gwersyll anawdurdodedig gan grŵp o sipsiwn-deithwyr ar dir ar Stad Ddiwydiannol Mona. Ymgynghorwyd â phob aelwyd yn y gwersyll hwn trwy ymgynghorydd o Unity, sef sefydliad sydd â phrofiad o gynnig eiriolaeth i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Defnyddiwyd holiadur y cytunwyd arno rhwng Unity a’r Cyngor i gael barn y bobl oedd ar y safle er mwyn cynorthwyo gyda’r ymgynghoriad ond hefyd i gael eu sylwadau ar faterion ehangach fel cyfleusterau a’r defnydd o fannau aros dros dro.

Roedd y chwe aelwyd oll o'r farn mai safle A fyddai orau ganddynt gan ei fod yn fwy ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, roedd y chwe aelwyd hefyd yn cytuno nad oedd lleoliad y safle’n eithriadol o bwysig iddynt cyn belled â bod safle’n cael ei ddarparu iddynt yn Ynys Môn, ar yr amod nad oedd yn rhy ddiarffordd. ‘Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai'r safle fod yn agos at siopau a chyfleusterau, er bod nifer wedi dweud hefyd bod ganddynt gar.  Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai unrhyw safle a fyddai’n cael ei greu yn ardal Caergybi yn  cael ei ddefnyddio’n bennaf gan Deithwyr Gwyddelig sy’n croesi i Iwerddon ac oddi yno. Nododd yr holl aelwydydd eu bod yn fodlon talu ffi wythnosol i ddefnyddio’r cyfleusterau aros dros dro gyda chyfleusterau digonol ar gyfer eu hanghenion.

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Dim yn berthnasol |

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Rhydd Deddf Tai (Cymru) 2014 ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle nodwyd angen am hynny. |

| **D - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Dim yn berthnasol |

| **DD - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn cynnwys cyllid cyfalaf i hwyluso sefydlu mannau stopio dros dro. |

| **E – Hefo pwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth wnaethon nhw ei ddweud?** |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth** (Gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **F - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Economaidd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae'r adroddiad yn cydnabod bod nodi safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn fater lle mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid iddo gymryd camau cadarnhaol i hybu cydlyniant cymunedol ac i atal erlid, hambygio a gwahaniaethu yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr sydd yn grŵp a ddiogelir o dan y Ddeddf. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**FF - Atodiadau:**

- Ymateb i’r ymgynghoriad gan y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn
- Gwasanaethau Adfywio Economaidd a Chymunedol CSYM
- Y Llu Awyr Brenhinol

**G - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda)**

1. Dogfen Ymgynghori, Ymgynghori ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn, Chwefror 2016.
2. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 02/02/16 ac i’r Pwyllgor Gwaith ar 08/02/16.
3. Cyflwyniad a chofnodion Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn dyddiedig 20/11/15 'Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun'.

# Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

# Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Safleoedd

# Penrhos a Mona

**Mawrth 2016**

**Paratowyd gan:**

Tudur H. Jones

Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol

## 1.0 Pwrpas y Papur

1.1 Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno sylwadau gan y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol ar y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn dweud bod Penrhos (Caergybi) a Mona yn safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

1.2 Yn y papur hwn hefyd, ceir crynodeb a chasgliadau o sylwadau'r Gwasanaeth ar gyfer y ddau safle a'r rhesymau pam fod y safleoedd hyn, yn ei barn ni, yn anaddas.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr pan fo angen wedi'i adnabod.

2.2 Gwnaed gwaith gan Gyngor Sir Ynys Môn i nodi safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys. O ganlyniad i hynny, lluniwyd rhestr fer o safleoedd sy'n cael eu hystyried fel rhai addas ar gyfer "Safleoedd Stopio Dros Dro" ac maent yn cynnwys Safle'r Heliport ym Mhenrhos (Caergybi) a Stad Ddiwydiannol Mona.

## 3.0 Safle'r Heliport, Penrhos, Caergybi

3.1 Ym marn y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol – sy'n adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru ynghylch eu safle nhw ym Mharc Cybi – nid yw hen Safle'r Heliport ar Stad Ddiwydiannol Penrhos yn addas fel safle stopio dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ardal Caergybi.

3.2 Mae nifer o resymau am hyn a manylir arnynt isod:

1. Safle 2.4ha yr Heliport yw'r unig dir cyflogaeth sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ei feddiant yng Nghaergybi sy'n addas ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol ac a fedr fanteisio ar y cyfleon o'r buddsoddiadau ynni disgwyliedig. Petai'r safle hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn, yna ni fyddai unrhyw opsiynau eraill ar gael i CSYM ddatblygu yng Nghaergybi.

2. Caiff Stad Ddiwydiannol Penrhos ei chydnabod fel Parth Menter Llywodraeth Cymru (EZ3). O'r herwydd, mae'r busnesau sydd / a fydd wedi eu lleoli yno yn gymwys i gael pecynnau anogaeth a buddion sy'n fantais fawr wrth geisio denu mewnfuddsoddiad.

3. Mae Parc Cybi sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru yn barc busnes o bwys strategol ac ni fyddai LlC yn cymeradwyo / cefnogi unrhyw o'r prosiectau sbeciannol a fyddai'n galluogi busnesau sy'n fwy addas ar gyfer Penrhos i gael eu sefydlu yno (busnesau "cymdogion budr"). Yn y diwedd, bwriedir i fusnesau o bwys strategol / cenedlaethol gael eu

lleoli yno.

4. Mae CSYM yn ddiweddar wedi sicrhau caniatâd cynllunio i adeiladu 10 (deg) o unedau busnes hyblyg ar gyfer eu rhentu i'r sector preifat ar safle'r Heliport. Costiodd y gwaith datblygu hwn oddeutu £70,000 a chafodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol oherwydd mae'n cwrdd ag angen a nodwyd ac yn mynd i'r afael â methiant yn y farchnad mewn maes allweddol. Mae busnes eisoes wedi mynegir awydd i'r Gwasanaeth AE&Ch i symud i un o'r unedau mwy petaent yn cael eu codi http://www.anglesey.gov.uk/business/energy-island/energy-island- news/planning-approval-for-new-business-units-on-anglesey-heliport- site/127552.article

5. Yn dilyn prynu'r tir gan Alwminiwm Môn yn y 1990au, cytunwyd ar gyfamod fel rhan o'r cytundeb contract. Yn y cyfamod hwn, dywedwyd na fyddai modd i CSYM sicrhau newid defnydd o'r dosbarthiadau busnes B1, B2 a B8 heb gael cosb ariannol a fyddai'n daladwy i Alwminiwm Môn. Oherwydd y byddai angen newid defnydd (yn ôl pob tebyg i Sui Generis) byddai angen i hyn gael ei gytuno a'i gymeradwyo gan Alwminiwm Môn ar lefel Bwrdd ac mae'n debyg y byddai'n rhaid talu rhyw fath o iawndal ariannol hefyd. Mae angen gael eglurder ynglŷn â'r agwedd hon.

6. Mae'r Gwasanaeth AE&Ch yn ddiweddar wedi cyflwyno cais am arian drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adeiladu'r unedau hyn ac i ailddatblygu'r safle cyfan gan ddefnyddio arian UE/ Sgoriodd y prosiect yn uchel yn y rownd gyntaf a gallai hefyd sicrhau cyllid cyfatebol drwy'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

7. Yn dilyn Asesiad annibynnol o'r Effaith Economaidd mewn perthynas â manteision ariannol gweithredu'r prosiect, gallai adeiladu'r unedau hyn arwain at gynnydd oddeutu £2.5m o GVA i economi Ynys Môn.

8. Mae prosiect cyfalaf mawr sy'n werth £305,000 ac sy'n cael ei gefnogi gydag arian o gronfeydd craidd CSYM, yr NDA a'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn mynd rhagddo er mwyn ailddatblygu'r unedau cyfredol ym Mhenrhos (Rhifau 1 – 8) sydd, y cyfan ohonynt, â thenantiaid ynddynt ac wedi eu prydlesu. Nod y cynllun hwn yw moderneiddio a gwneud yr unedau'n fwy ynni-effeithlon a hwylus ar gyfer y sawl sy'n eu defnyddio.

9. Fel "safle dros dro i Sipsiwn" ni fyddai'r safle ond yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd – oddeutu 3 i 4 gwaith y flwyddyn – ni fyddai mewn unrhyw fodd yn sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r safle a'r potensial i greu a chynnal nifer sylweddol o swyddi mewn ardal heriol o safbwynt economaidd fel Caergybi.

10. Yn Lleol, mae Stad Ddiwydiannol Penrhos yn arwyddocaol o ran nifer y busnesau a'r nifer a gyflogir yno ac, yn ogystal, mae'n lleoliad pwysig iawn. Mae'n gartref i nifer o fusnesau rhanbarthol adnabyddus – Môn Maintenance Services, DU Construction ac ati – sydd wedi buddsoddi arian sylweddol i brynu'r tir a'r unedau busnes hunan-adeiladu sy'n cwrdd â'u gofynion penodol. Mae'r safle bellach yn cael ei gydnabod a'i ystyried fel 'hyb busnes' ac mae ei statws fel Parth Menter yn ategu hynny. Gallai safle i Sipsiwn a Theithwyr wneud drwg i'r stad.

11. Drwy drafodaethau anffurfiol gyda'r tenantiaid, maent wedi mynegi gwrthwynebiad cryf i unrhyw safle Sipsiwn arfaethedig ac mae un cwmni wedi dweud y byddant yn ystyried gadael eu huned. Bydd y tenantiaid hyn yn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar i'r perwyl hwn.

## 4.0 Stad Ddiwydiannol Mona

4.1 Yr un modd â stad Penrhos, nid yw'r Gwasanaeth AE&Ch o'r farn bod Stad Ddiwydiannol Mona yn un addas ar gyfer safle i Sipsiwn a Theithwyr.

1. Y safle 4 erw yw un o'r ychydig safleoedd cyflogaeth sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ei feddiant ym Mona sy'n addas ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol ac a fedr fanteisio ar y buddsoddiadau ynni disgwyliedig. Petai'r safle hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn, ni fyddai unrhyw opsiynau ar ôl i CSYM i ddatblygu ym Mona yn y dyfodol oherwydd cyfyngiadau o ran perchenogaeth y tir.

2. O'r 4 plot sydd ar gael ym Mona, cafwyd cynnig ar gyfer dau ohonynt. Cafwyd cynnig ar gyfer Plot 5B (sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn).

3. Mae CSYM yn ddiweddar wedi derbyn nifer o ymholiadau mewn perthynas â thir ym Mona gan gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r tir gan greu derbyniadau cyfalaf i'r Cyngor Sir o ganlyniad. Byddai'r cwmnïau hyn yn eu tro yn cynhyrchu gwariant ac yn creu cyfleon cyflogaeth yn y tymor byr, canolig a hir.

4. Mae'r Gwasanaeth AE&Ch o'r farn y gallai lleoli safle i Sipsiwn a Theithwyr ym Mona wneud drwg sylweddol i les economaidd yr ardal oherwydd ni fyddai cwmnïau sy'n chwilio am le newydd neu hyd yn oed ehangu eu busnesau cyfredol yn dymuno mynd yno.

5. Mae Stad Ddiwydiannol Mona yn arwyddocaol o ran nifer y busnesau a'r nifer a gyflogir ac, yn ogystal, mae'n lleoliad pwysig iawn. Mae'n gartref i nifer o fusnesau rhanbarthol adnabyddus – Hefin Thomas, AMP, Moduron Maethlu – sydd wedi buddsoddi arian sylweddol i brynu'r tir a'r unedau busnes hunan-adeiladu sy'n cwrdd â'u gofynion penodol. Mae'r safle bellach yn cael ei gydnabod a'i ystyried fel 'hyb busnes'. Gallai safle i Sipsiwn a Theithwyr wneud drwg i hynny.

6. Drwy drafodaethau anffurfiol gyda'r tenantiaid, maent wedi mynegi gwrthwynebiad cryf i unrhyw safle Sipsiwn arfaethedig ac mae dau sefydliad wedi dweud y byddant yn ystyried gadael eu hunedau. Petai hynny'n digwydd, byddai'r Cyngor Sir yn colli incwm. Bydd y tenantiaid hyn yn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar i'r perwyl hwn.

7. Waeth ba mor dda y câi unrhyw safle ei ddylunio / sgrinio o'r Stad Ddiwydiannol, mae posibilrwydd cryf y byddai'n achosi canfyddiadau negyddol ymysg datblygwyr/busnesau yn yr ardal ac na fyddant yn dymuno symud i Mona.

8. Mae lleoliad y Stadau Diwydiannol yn golygu eu bod i ffwrdd o gyfleusterau megis iechyd, addysg a siopau. Mae'r gwasanaeth lleol hyn yn hanfodol bwysig i sicrhau integreiddiad mewn cymunedau.

## 5.0 Casgliadau

5.1 Am y rhesymau uchod, mae'r Gwasanaethau AE&Ch yn gryf o'r farn nad yw Safle'r Heliport na Stad Ddiwydiannol Mona yn lleoliadau addas ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.

5.2 Mae sicrhau bod gan Ynys Môn gyflenwad digonol o dir cyflogaeth yn bwysig ac mae safleoedd strategol megis Caergybi a Mona yn hollbwysig i sicrhau y gall y Cyngor Sir alluogi a hwyluso cwmnïau o fuddsoddi a chreu cyfleon cyflogaeth ar gyfer trigolion Ynys Môn.

5.3 Byddai neilltuo'r ychydig dir cyflogaeth sydd gennym yn y ddau safle hwn i ddiben na fyddai'n creu cyflogaeth neu'n sicrhau ffyniant yn y dyfodol yn beryglus o gibddall a gallai niweidio dyheadau rhaglen Ynys Ynni Môn.

Defence Infrastructure Organisation

Ministry of Defence
Building 49
Kingston Road
Sutton Coldfield
West Midlands B75 7RL
United Kingdom

Telephone [MOD]: +44 (0)121 311 3635
Facsimile [MOD]: +44 (0)121 311 3636
E-mail: ellen.ogrady324@mod.uk

Ref. DIO response to Consultation on Gypsy and Traveller Sites

FAO: Policy Unit, Isle of Anglesey County Council.

BY EMAIL ONLY.

10 March 2016

Dear Sir/Madam,

RE: DIO response to Consultation on Gypsy and Traveller Sites

The proposed sites at Mona Industrial Site are within very close proximity to RAF Mona which is an operational airfield. Proposed Site 4 is adjacent to our boundary, whereas proposed Site 5 is approximately 457 metres from the boundary. DIO hereby object to both proposed sites being used for temporary accommodation of any kind.

RAF Mona is a relief airfield for RAF Valley and is well used, especially for training flights, including night flying. The level of noise from the use of the airfield is incompatible with any type of residential accommodation, however temporary. There have also been two crashes at the site in recent history, where debris has fallen in the area of proposed Site 4. It is DIOs position that an adequate residential amenity could not be provided on either site due to aircraft noise.

DIO are aware that a site at the Mona Industrial Estate has been used illegally as temporary accommodation for gypsy and traveller caravans in the past. During the times when the site is occupied by gypsies and/or travellers, the RAF Station has suffered from significant anti-social behaviour exhibited by the occupants of the site. Rubbish is often thrown over the boundary fence, which is not only unsightly onerous for the Station to clear, but can also attract birds, which are a danger to aircraft. The Station has also reported Cadets being verbally abused and harassed while carrying out exercises.

The Secretary of State for Defence sold the land the two proposed sites occupy to your Council on 31st March 1994. Clause 3a of that conveyance states as follows:

“That neither the property or any part thereof shall be used….for any purpose which may be or become a nuisance, danger, damage or annoyance to the owners or occupiers for the time being of the Retained Land or any part thereof.”

Clauses 4a & b are also applicable to Site 4 and they state as follows:

"the Purchaser and its successors in title will not at any time ….. within the land ….. erect build or place any building or structure of any description whatever whether permanent or temporary and whether moveable or not without the previous consent in writing of the vendor….."

DIO hereby state that the use of either proposed site 4 or 5 would not fulfil the obligations of your Council as agreed to by entering into the above restrictive covenant.

Yours faithfully,

Ellen O'Grady
Senior Town Planner
MTCP (Hons) MRTPI

CLERC. DEREK OWEN. 07766552583.

PENANT
18 THE LINKS
BULL BAY
YNYS MON
LL68 9EG.

ADRAN
CYNORTHWY-YDD GWEINYDDOL
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
CYNGOR SIR YNYS MÕN
LLANGEFNI
LL77 7TW.

Annwyl Syr / Madam

YMGYNGHORIAD. SIPSIWN / TEITHWYR STAD DDIWYDIANNOL MONA, BODFFORDD. GWRTHWYNEBU.

Siomedig fod yr ymgynghoriad môr fyr rhybudd.
Ffermwyr yn cael trafferth gyds Sipsiwn / Teithwyr yn cerdded ei tir gyda cwn, peryglud i dda byw.
Trigolion yn y Stadau yn barod i symud i ffwrdd.
Llygod mawr yn hel yma yn barod, beth mae y Sipsiwn yn ei losgi? Llygru yr ardal.
Faint mae CCTV yn mynd i gostio, pwy fydd yn talu? Pan mae y Cyngor Sir yn methu fforddio talu am rhai yn Llangefni a Pentrefi eraill.
Prynwyd y tir fel ardal lan, fydd neb newydd a diddordeb symud mewn.
A ydyw Llu Awyr Frenhinol Valley yn gwrthwynebu ffasiwn ddatblygiad, ar ol gweld plant bach yn rhedeg ar y Llwybr Glanio. A ydyw in iawn i blant fod wrth Lwybr Glanio gyd swn yr Awyrennau mawr swnllyd. Bron ddydd a nos.
Paham rhoi teulu a phlant a`r Stad Ddiwydiannol a lle mor beryglus, wrth ymyl Gweithrediad Gwastraff. Beth am y Tramwy Trwm yn mynd a dod.
Dim Meddygon, Siopau, Ysgolion ac ymlaen yn agos, efallai y buasai yn well fynd i Dref agosach na Stad Ddiwydiannol. Mae deall nad oes neb eisiau nhw o gwmpas ei hardal.
A ydyw yn iawn cael ei cuddio o olygfa plaen. Paham mae y ddogfen yn ymddengys i gefnogi`r cadw safleoedd hyn allan o olwg plaen?
Gallai ganiatau camddefnyddio cyflesterau a ddarperir, heb son am safleoedd cyfagos.
Llywodraeth Cymru ddim yn gefnogol o dir o fewn parth menter yn cael ei ddefnyddio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Teithwyr. Yn sicr y byddai rhesymau dros cadw hwn yn berthnasol i Cyngor Mon. Safleoedd Diwydiannol syn eiddo, rhodd gan y PDA ar gyfer yr un union diben.
Safleoedd Brownfields yn well na`r hen safleoedd Diwydiannol segur.
Nid yw lluniau a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn gyfredol, ac yn methu a dangos chwe busnes newydd allweddol. Bydd y cyhoedd ddim yn gallu ffurfio barn gywir ar yr effeithiau.

Dan ba amgylchiad y mae`n mynd yn dderbyniol o fewn termau cynllunio i ganiatau i safleoedd diwydiannol i newid i ddefnydd preswyl.
Bydd yr effaith ysiwrant fod yn risg go iawn i`r safleoedd. Nie oes angen safle parhaol yn canol yr Ynys.

Yr eiddoch yn gywir
D Owen. Clerc.

Siarad o Brofiad,
Blynyddoed yn ol pan yn dal tir yn Green Farm, Bodffordd (Ger llyn Felin Frogwy) Fe oedd ffordd yr awyrennau dros y fan yma am y llwybr glanio.
Un diwrnod yr oedd un fuwch ar goll, cafwyd hyd iddynt yn yr eithin ai chefn wedi llosgi.
Galwyd y Milfeddyg a dywedod maen olew poeth o`r awyrennau oedd wedi gwneud hyn am ei bod yn hedfan yn isel. Rhywbeth i feddwl am y plant pe baent yn mynd ar y llwybr glanio.

**Group Captain B R Braid MA RAF**
Officer Commanding / Prif Swyddog

ROYAL AIR FORCE

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council
- 3 MAR 2016
Swyddogol Sensitif – Official Sensitive
Gwasanaethau Tai – Housing

**Royal Air Force Valley**
**Llu Awyr Brenhinol Y Fali**

Valley, Holyhead, Anglesey, LL65 3NY
Y Fali, Caergybi, Ynys Môn, LL65 3NY
Tel/ Ffôn: 01407 767033 VPN: 95581 7201
Fax/Ffacs: 01407 767025 VPN: 95581 7807
Email: val-stncdr@mod.uk

Shan LL Williams MSc (Econ) MCIH
Head of Housing Services
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

29 February 2016

Dear Shan,

Many thanks for the consultation documents regarding the options for gypsy and traveller sites on Anglesey.

As you may be aware our Safeguarding Department within the Defence Infrastructure Organisation deal with all aspects of planning permission in the local vicinity of Royal Air Force Valley and Mona and they will no doubt be in liaison with you already. However, so that you are aware, these are the issues that I will be raising with DIO regarding the proposals:

1. In the last 2-3 years, site 4 has previously been used by groups of travellers which has caused a number of issues from an air safety and operations perspective, due to trespassing and fly tipping. The proposal could lead to increased risk of runway incursions and foreign object damage to aircraft, the consequences of which could be significant in air safety terms.
2. We have had incidents in the past where travellers on the site have harassed 2474 (Cefni) Squadron Air Cadets, who occupy Mona for their weekly meetings, by verbally abusing them and pelting them with stones using slingshots.

In the last few weeks I have received a number of phone calls from concerned residents in that area wishing to inform me of the plans and I have also received a letter from a Mr & Mrs Williams expressing their concerns, along with evidence of events that they have witnessed whilst the land was previously occupied by travellers. I have enclosed a copy for your information.

Should you wish to discuss this matter in more detail or require any additional information please do not hesitate to contact me. As I have already mentioned, the formal response from the MOD to this proposal will come from the Safeguarding Department within the Defence Infrastructure Organisation.

Yours,

[signature]

Royal Air Force Valley welcomes correspondence in Welsh and English.
Mae Llu Awyr Brenhinol Y Fali yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

'Training Aircrew and Saving Lives'
'Hyfforddi Criw Awyr ac Achub Bywyda'

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Y Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 13 Mai 2016 – Pwyllgor Sgriwtini<br>31 Mai 2016 – Pwyllgor Gwaith |
| **Pwnc:** | Ymgynghoriad ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn – Safle Parhaol yn Ardal Y Fenai |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Mike Evans, Uwch Swyddog Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>01286 679825<br>mikeevans@gwynedd.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Y Cynghorwyr:<br>Alwyn Rowlands<br>Carwyn Jones<br>Lewis Davies<br>Alun Mummery<br>Meirion Jones<br>Jim Evans |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**Argymhellion:** ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a'r ymarferion asesu safleoedd a amlinellir yn yr adroddiad, argymhellir fel a ganlyn:

1. Safle 3 diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad 1), Tir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd yn cael ei ddewis ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel safle posibl i gwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fel y cânt eu nodi yn yr Asesiad diweddaraf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd ac Ynys Môn yn amodol ar ganlyniadau'r ymchwiliadau pellach a amlinellir isod.

2. Bydd CSYM yn gwneud gwaith ymchwil pellach i gadarnhau addasrwydd ac ymarferoldeb y safle uchod o safbwynt diogelwch y ffordd ac effaith ar iechyd.

3. Bydd CSYM yn parhau i ymgysylltu gyda thrigolion y gwersyll anawdurdodedig yn y gilfan ar yr A5025 i gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dymuniadau ac i egluro gofynion y Cyngor. Bydd y Cyngor yn defnyddio hwylusydd annibynnol sydd

â phrofiad o ddelio gyda materion yn ymwneud â sipsiwn a theithwyr i gynorthwyo gyda'r uchod.

4. Bydd CSYM yn ceisio ymgynghori gyda thrigolion y gwersylloedd anawdurdodedig mewn perthynas â dyluniad a dull rheoli'r safle newydd arfaethedig.

5. Bydd CSYM yn ymgysylltu gyda chymunedau lleol a chydranddeiliaid allweddol ynghylch cynigion i ddatblygu'r safle gyda'r nod o ddatblygu cydlyniant cymunedol.

6. Bydd CSYM yn cynnal trafodaethau gyda pherchennog y ddau gae (wedi eu marcio ar y cynllun (Atodiad 1) gyda golwg ar eu prynu.

**Rhesymau am bob Argymhelliad**

1. Mae Swyddogion wedi asesu nifer o safleoedd eraill ac wedi cymryd Canllawiau Llywodraeth Cymru i ystyriaeth wrth ddatblygu ei fethodoleg i asesu safleoedd addas posibl. Ystyriwyd mai'r tri safle yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn ddiweddar oedd â'r potensial mwyaf o ran eu datblygu fel Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Mae ffactorau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol mewn perthynas â'r tri safle ac mae angen eu cymryd i ystyriaeth. Wedi ystyried manteision ac anfanteision pob safle ac ar ôl pwyso a mesur, ystyrir bod Safle 3 yn haeddu cael ei ddewis. Am y rhesymau a eglurir yn yr adroddiad hwn, cafodd Safle 3 ei ddewis fel tir posibl ar gyfer safle preswyl parhaol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

   Nid ystyrir bod Mân-ddaliad Gaerwen yn addas oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â darparu cyflenwad dŵr fel y nodir yn ymateb Dŵr Cymru. Petai plant yn byw ar y safle, ystyrir nad yw'r gilfan ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth yn addas oherwydd ei fod mor agos i lôn dosbarth A brysur ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dwyn sylw at hyn (Atodiad 2). Mae trigolion lleol wedi mynegi pryderon hefyd ynglŷn â'r risg o ddamwain ar y ffordd oherwydd bod cŵn ar y safle a gwelwyd mwg yn codi o danau ar y safle'n ddiweddar.

2. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil mewn perthynas â Safle 3 i roi sylw i rai o'r materion a godwyd yn y sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â materion a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch ar y ffordd fawr ac ar Iechyd. Awgryma tystiolaeth y gellir datrys y materion hyn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ymgeisio am ganiatâd cynllunio.

3. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, mae swyddogion CSYM wedi cael anhawster ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r Teithwyr yr Oes Newydd sy'n byw yn y gwersyll anawdurdodedig a oddefir rhwng Porthaethwy a Phentraeth. Mae defnyddio hwylusydd annibynnol gyda phrofiad o ddelio â grwpiau anodd eu

cyrraedd wedi cynorthwyo'r Cyngor i ymgysylltu gyda'r Teithwyr yr Oes Newydd yn ystod y broses ymgynghori, ac wedi galluogi'r trigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio hwylusydd annibynnol pan fo angen i gynnal cyfarfod pellach i siarad am y broses o ddarparu safle ar gyfer Teithwyr.

4. Dylai dwyn y Teithwyr Newydd i mewn i drafodaethau ynghylch dyluniad y safle a'r modd y bwriedir ei reoli, helpu i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

5. Er mwyn cefnogi cydlyniant cymunedol, bydd CSYM yn ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol yn y broses o ddarparu safle awdurdodedig.

6. Bydd angen i CSYM brynu un neu ddau o'r caeau y cyfeiriwyd atynt, er mwyn darparu safle preswyl awdurdodedig addas gyda mynedfa i gerbydau a fyddai'n cwrdd â gofynion priffyrdd. Bydd union ffiniau'r tir i'w ddatblygu yn cael eu penderfynu yn nes ymlaen. Sylwch os gwelwch yn dda na fydd angen yr holl dir a ddangosir ar y cynllun ynghlwm i ddarparu llety ar gyfer y Teithwyr sy'n preswylio ar hyn o bryd yn y gilfan, Lôn Pentraeth.

**Cefndir**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn darparu ar gyfer digon o safleoedd priodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Yn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nodwyd bod angen safleoedd parhaol a dros dro yn y ddwy ardal awdurdod lleol a nodwyd. Yn Asesiad 2016, nodwyd bod angen

- safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion Teithwyr Newydd yn codi o'r safle anawdurdodedig a oddefir yn Ffordd Pentraeth (pedair llain).

Er bod effeithiau gweledol a mwynderol ar gymunedau ac eiddo cyfagos yn faterion pwysig, mae polisïau cynllunio ar gael ar hyn o bryd i warchod rhag effeithiau sy'n annerbyniol o andwyol. Derbynnir y gall dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr achosi cynnwrf yn ystod y broses gynllunio. Fodd bynnag, rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio er budd ehangach y cyhoedd ac mewn modd rhesymegol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth, lle mae'r materion hyn yn cael eu cydbwyso yn erbyn

ffactorau eraill. Cyn y gellir datblygu safle awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr, rhaid cael caniatâd cynllunio. Bydd y cam hwn yn y broses yn darparu manylion a sicrwydd ynghylch materion megis mynedfa i gerbydau, gosodiad a dyluniad y safle a thirlunio. Felly, bydd cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y cais cynllunio cyn y gwneir penderfyniad arno.

**Math a maint y safleoedd y mae angen eu darparu**

Yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016, cafwyd tystiolaeth o'r angen i ddarparu safle preswyl parhaol i gwrdd ag anghenion Teithwyr Newydd sy'n byw ar y safle anawdurdodedig a oddefir yn Ffordd Pentraeth (pedwar cae).

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn anodd rhagweld yn gywir beth fydd yr anghenion dros gyfnod hwy.

Ym marn y swyddogion, rhoddwyd sylw dyledus i gyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran yr ymagwedd tuag at adnabod safleoedd parhaol posibl i Sipsiwn a Theithwyr.

**Cyfiawnhad ar gyfer dewis Safle Diwygiedig 3 i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Cafodd y safleoedd canlynol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel safleoedd posibl ar gyfer y rhestr fer

- Safle 1. Y gwersyll presennol yn y gilfan ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth
- Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen
- Safle 3. Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd

**Manteision ac Anfanteision**

Mae'r tablau isod yn nodi ar ffurf bwledi, fanteision ac anfanteision canfyddedig datblygu safle parhaol awdurdodedig ar bob un o'r tri safle.

Safle 1. Y Gwersyll presennol yn y gilfan ar yrA5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Byddai defnyddio'r safle hwn yn cyd-fynd gyda dymuniad y trigolion presennol i aros yno<br>• Mae cyflenwad dŵr i'r safle eisoes ar gael | • Yn agos at ffordd brysur iawn<br>• Angen gwella'r fynedfa i gerbydau<br>• Dim palmantau gerllaw<br>• Byddai ailddatblygu'r safle a thorri |

| | |
|---|---|
| • Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Mae'r safle cyfredol yn cael ei sgrinio'n weddol yn yr haf pan mae'r coed yn eu dail<br>• Mae'r safle ar lwybr bws<br>• Siopau a gwasanaethau ar gael ym Mhorthaethwy | mwy o goed yn gwneud y safle'n fwy amlwg<br>• Gall gwaith ailddatblygu a thorri coed fod yn niweidiol i faterion cadwraeth<br>• Ar ffordd sy'n boblogiadd gyda thwristiaid<br>• Dim llawer o sgôp i ehangu'r safle petai angen lleiniau ychwanegol neu le chwarae i blant yn y dyfodol<br>• Mae rhwystr ar hyn o bryd i hawliau tramwy preifat<br>• Am resymau iechyd a diogelwch, efallai y byddai angen symud y trigolion a'u heiddo am gyfnod dros dro yn ystod y gwaith o ailddatblygu'r safle |

- **Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Yn agos at siopau a chyfleusterau cymunedol yng Ngaerwen<br>• Gallai'r teithwyr aros ar y safle cyfredol hyd nes byddai'r un newydd yn barod<br>• Digon o dir ar gael i greu amgylchedd da ar gyfer Teithwyr, gan gynnwys lleiniau ychwanegol | • Dim cyflenwad dwr ar hyn o bryd. Byddai'n costio cryn dipyn i gysylltu i gyflenwad dwr hwylus<br>• Y canfyddiad y byddai'n gwneud y Parc Gwyddoniaeth arfaethedig yn llai atyniadol<br>• Byddai creu mynedfa newydd i gerbydau i gydymffurfio gyda gofynion priffyrdd yn arwain at |

| | |
|---|---|
| a lle chwarae i blant petai eu hangen<br>• Yn ymyl llwybr bysus ar yr A5 | golli'r gwrychyn presennol<br>• Efallai y byddai angen palmantau ychwanegol i wella hwylustod i gerddwyr<br>• Risgiau i gerddwyr sy'n croesi'r ffyrdd mynediad i ac o'r A55<br>• Y safle mewn lleoliad agored. Ychydig iawn o gysgod rhag y gwynt |

- **Safle 3 Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Dim llawer o dai'n agos at y safle<br>• Llai o draffig yn pasio'r safle hwn na'r un cyfredol<br>• Gallai'r teithwyr aros ar y safle cyfredol hyd nes byddai'r un newydd yn barod<br>• Digon o dir ar gael i greu amgylchedd da ar gyfer Teithwyr, gan gynnwys lleiniau ychwanegol a lle chwarae i blant petai eu hangen<br>• Byddai prynu tir preifat i hwyluso mynediad i gerbydau yn (i) creu mwy o gyfle i ledu a gwella'r briffordd gyfagos a/neu (ii) yn darparu lleoliad arall ar gyfer y lleiniau y bydd eu hangen | • Byddai'n golygu colli tir glas<br>• Byddai creu mynedfa newydd i gerbydau i gydymffurfio gyda gofynion priffyrdd yn arwain at golli'r gwrychyn presennol<br>• Byddai angen prynu tir preifat i ddarparu mynedfa ddiogel i gerbydau i'r safle<br>• Gallai'r ffaith bod Canolfan Ailgylchu'r Cyngor yn agos at y safle effeithio ar fwynhad y trigolion o'r safle hwn |

**Casgliadau**

Fel y nodir, mae gan bob un o'r safleoedd uchod eu cryfderau a'u gwendidau. Wedi ystyried y ffactorau hyn ynghyd â'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ystyrir mai argaeledd cyflenwad dwr a materion sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd yw'r prif ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad.

O ran cyflenwad dwr, mae un ar gael yn Safle 1. Gan ystyried sylwadau a gafwyd gan Dŵr Cymru, Atodiad 2, mae'n ymddangos bod darparu dŵr o'r prif gyflenwad i Safle 2 yn debygol o fod yn gostus oherwydd bod y prif gyflenwad ryw 700m i'r gogledd o'r safle. Er bod pibell i'r prif gyflenwad yn nes i gyfeiriad y de o'r A55, byddai'n broblemus darparu cyflenwad dros yr A55. Ymddengys y byddai cost uchel darparu cysylltiad dŵr o'r prif gyflenwad i'r safle hwn yn golygu y byddai'n cael ei ddiystyru fel safle addas posibl i Deithwyr. Nid oes unrhyw broblemau y gwyddys amdanynt mewn perthynas â darparu dŵr i Safle 3 o'r cyflenwad presennol yng Nghanolfan Ailgylchu y Cyngor.

O ran materion diogelwch y ffyrdd, nid ystyrir bod Safle 1 yn addas oherwydd ei fod yn agos at ffordd Dosbarth A brysur a chyflym fel y nodir gan Heddlu Gogledd Cymru (yn Atodiad ???). Mae hyn o bryder arbennig petai plant yn ymweld â'r safle. Mae trigolion lleol hefyd wedi mynedig pryder ynghylch y risg o ddamwain ar y ffordd oherwydd mae cŵn ar y safle a gwelwyd mwg yn codi o danau ar y safle yn y gorffennol. Gellir darparu mynedfa ddiogel i gerbydau i Safleoedd 2 a 3 ac mae'r ddau safle wedi eu lleoli ar ffyrdd bychan.

Un anfantais sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu'r safle presennol yw'r tebygolrwydd y byddai'n rhaid symud y trigolion presennol am gyfnod dros dro er mwyn medru cwblhau'r gwaith adeiladu angenrheidiol.

Gallai lledu'r fynedfa gyfredol ar ochr ddeheuol y safle a gwneud gwaith arall, leihau'r risg o ddamweiniau a gwella diogelwch ar y ffyrdd ond un o brif anfanteision y safle hwn yw ei fod yn weddol fychan o ran maint. Nid ystyrir y byddai modd ehangu'r safle hwn i ddarparu lleiniau ychwanegol. Gellid darparu lleiniau ychwanegol a lle chwaraeon yn Safleoedd 2 a 3 yng Ngaerwen a Phenhesgyn petai tystiolaeth i gefnogi'r angen amdanynt.

**Crynodeb o ganfyddiadau'r Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Dywedodd yr eiriolwr annibynnol fod trigolion safle Pentraeth yn teimlo dan fygythiad go iawn oherwydd y sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar a bod y sylw hwn wedi eu gwneud yn llai parod i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gyda'r Cyngor. Mae'r eiriolwr wedi llwyddo i siarad â thri o'r pedwar o aelwydydd ar y safle. Mae'r trigolion yn ystyried bod ganddynt lawer o gwestiynau dilys sydd angen eu hateb cyn y byddent yn teimlo'n gyfforddus gyda'r broses ymgynghori. Mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch lle y byddant yn byw am gyfnod dros dro petai eu safle presennol yn cael ei ailddatblygu, lefelau rhent tebygol, beth fyddai rheolau'r safle a materion yn ymwneud â'r dyluniad a'r gwaith tirlunio arfaethedig. Er nad yw'r eiriolwr wedi gallu cael barn yr

holl drigolion, mae wedi dweud y byddai’n well ganddynt aros yn eu safle presennol.

Er y cafwyd rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am y trigolion a’u dymuniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'n bwysig bod deialog ac ymgysylltu pellach yn digwydd fel y gall y Cyngor gymryd barn y trigolion i ystyriaeth yn y broses o ddarparu safle awdurdodedig ac er mwyn i’r Cyngor fedru egluro i’r trigolion eu gofynion o ran y safle a’i reoli.

**Crynodeb o'r ymgynghoriad**


- **Ymatebion yr holiadur**

Cafodd 268 o holiaduron eu llenwi.

Mae’r tabl canlynol yn egluro’r ymatebion i’r cwestiwn cyntaf yn yr holiadur ymgynghori, oedd yn gofyn i ymatebwyr osod y safleoedd yn y drefn roeddent yn ei ffafrio – 1 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio fwyaf a 3 ar gyfer y safle roeddent yn ei ffafrio leiaf. Dewisodd 30 o ymatebwyr beidio â nodi unrhyw un o’r safleoedd.

| | Dewis cyntaf | Ail ddewis | Trydydd dewis |
|---|---|---|---|
| Safle1. Gwersyll presennol y gilfan ar yr A5025 gilfan rhwng Porthaethwy a Phentraeth | 77 | 36 | 125 |
| Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen | 90 | 64 | 84 |
| Safle 3 Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd | 71 | 138 | 29 |

Mae'r graff canlynol yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn olaf lle gofynnwyd i’r ymatebwyr nodi'r ddau ffactor, a oedd bwysicaf yn eu dewis o safle.




Mae'r siart uchod yn dangos bod y sawl a ymatebodd i'r holiadur o'r farn mai'r ddau ffactor pwysicaf dros ddewis safle yw'r effaith ar yr amgylchedd 55.7% ac effaith ar eiddo preswyl cyfagos 58.1%.

**Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd**

Mae'r tablau isod yn crynhoi themâu'r sylwadau a wnaed fwyaf trwy lythyr, e-bost neu'r holiaduron a materion eraill a godwyd sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu pa mor addas a rhesymol yw dewis safleoedd unigol.

**Safle 1. Y gwersyll presennol ar y gilfan ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth**

| Y Prif Faterion a nodwyd gan yr ymatebwyr | Crynodeb o sylwadau gan ymatebwyr | Ymateb Swyddogion i'r sylwadau |
|---|---|---|
| Materion priffyrdd | Nid ystyrir bod y gilfan ar yr A5025 yn addas am y rhesymau canlynol:-<br><br>Agosrwydd at ffordd fawr brysur heb lwybr cyhoeddus | Dywed Swyddogion Priffyrdd nad yw'r fynedfa ogleddol yn cydymffurfio â safonau technegol ac maent yn argymell gwelliannau i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | / palmant<br><br>Plant ifanc a chŵn rhydd ar y safle a'r ffordd fawr<br><br>Gwelededd gwael<br><br>Risg gynyddol o ddamweiniau'n gysylltiedig â'r defnydd o'r safle.<br><br>Perygl i ddiogelwch defnyddwyr y ffordd a'r Teithwyr eu hunain<br><br>Mwg o'r safle yn chwythu dros y lôn gan amharu ar allu gyrwyr i weld | fynedfa ddeheuol.<br><br>Angen trafodaethau pellach gyda Phriffyrdd ynglŷn â gwelliannau posibl i'r fynedfa a'r briffordd.<br><br>Bydd y Cyngor yn mynnu bod ffiniau'r safle a'r holl leiniau ar unrhyw safle awdurdodedig yn cael eu dylunio a'u trin yn briodol. Byddai'r mesur hwn yn lleihau'r risg y byddai anifeiliaid a phlant yn crwydro i'r briffordd |
| | O'r farn y gellid gwella diogelwch ar y briffordd | Nodwyd (gweler uchod) |
| | Dim digon o le i greu amgylchedd da ar gyfer teithwyr | Ystyriwyd y gellid ail-ddylunio'r safle i ddarparu amgylchedd da ar gyfer y trigolion. |
| Niwed i effeithiau gweledol ac amgylcheddol | Llanast hyll a hen gerbydau a charafannau. Byddai torri ychwaneg o goed yn gwneud y safle'n fwy amlwg.<br><br>Ystyried na ddylai'r safle fod ar brif ffordd neu, fel arall, dylid ei sgrinio o'r golwg. Dylai'r Cyngor gymryd camau i wella edrychiad y safle.<br><br>O'r farn y dylai'r safle hwn gael ei gadw'n daclus<br><br>Niweidiol i dwristiaeth | Ystyrir y gallai'r safle gael ei ail-ddylunio i ddarparu amgylchedd da ar gyfer y trigolion.<br><br>Byddai gwaith plannu a thirlunio ychwanegol, yn lleihau amlygrwydd y safle yn enwedig yn y gaeaf<br><br>Bydd rheolau'n cael eu sefydlu i gyfyngu ar nifer y cerbydau fydd yn cael eu cadw ar y safle ac i wella edrychiad y safle |
| Rhy bell o'r siopau a chyfleusterau hanfodol | Fel y nodir yng nghanllawiau'r llywodraeth, dylai'r safleoedd fod yn agos | Mae'r Cyngor wedi'i chael yn anodd dod o hyd i safleoedd sy'n cwrdd yn llwyr â |

| | | |
|---|---|---|
| | i gymuned neu bentref, nid ar gae glas y tu allan i drefi - Stad Ddiwydiannol Mona; Depo Four Crosses; Depo Gaerwen.<br><br>Bydd lleoliad y safle yn ymddieithrio teithwyr ac yn ei gwneud yn anodd iddynt integreiddio â'r gymuned<br><br>Mwy o gyfle i integreiddio os yw'r safle'n agosach at dref | Chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn bodloni dyheadau trigolion presennol. |
| Cost | Gan fod y safle presennol yn dal nifer cymharol fach o Deithwyr, rwy'n teimlo y dylai tai fod ar gael iddynt. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid ariannu unrhyw safle newydd.<br><br>Gwastraff o arian cyhoeddus oherwydd mai ychydig o le sydd yma i ehangu<br><br>Mae'n bosib mai'r safle hwn fyddai'r mwyaf cost effeithiol i'w ailddatblygu gan fod y Teithwyr yno'n barod<br><br>Safle'n gostus i'w ddatblygu - cau'r briffordd a darparu cyfleustodau | Mae dyletswydd ar Gynghorau i ddarparu llety digonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae tystiolaeth o angen. Mae rhai Sipsiwn a Theithwyr yn gwrthwynebu byw mewn llety brics a mortar.<br><br>Mae cyllid 100% ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddarparu safleoedd parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Byddai disgwyl i drigolion dalu rhent a thalu am wasanaethau, fel pob tenant mewn tai cymdeithasol.<br><br>Nid oes angen ar hyn o bryd i ehangu. Mae'r GTANA wedi gweithio allan yr angen presennol a'r angen yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Parheir i adolygu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr. |
| Anaddas ar gyfer plant ac anifeiliaid | Anaddas ar gyfer plant ac anifeiliaid oherwydd y ffordd brysur | Nid oes unrhyw blant yn byw yn barhaol ar y safle awdurdodedig ar hyn o bryd. Byddai darparu safle sydd wedi'i ddylunio a'i reoli'n dda |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwella amodau byw trigolion |
| Defnydd o'r safle | Ni fydd Teithwyr yn defnyddio unrhyw safle a reolir a ddarperir | Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â thrigolion er mwyn sefydlu a fyddent yn barod i fyw ar safle wedi'i reoli ac i esbonio'r canlyniadau posibl petaent yn gwrthod byw ar safle awdurdodedig. |
| | Efallai na fydd trigolion safleoedd awdurdodedig yn glynu wrth reolau'r Cyngor | Byddai angen i drigolion gydymffurfio â'u cytundebau tenantiaeth. Gall methiant i wneud hyn olygu eu bod yn cael eu troi allan o'r safle. |
| Cefnogaeth ar gyfer y safle presennol | Nid ydynt yn gweld unrhyw reswm pam na allant aros ar y safle cyfredol. Wedi ei hen sefydlu. Hawdd ei gyrraedd ac yn adnabyddus ymysg y gymuned deithiol a llai o effaith o ran mwynderau gweledol<br><br>Dylai'r safle gael ei dacluso a'i wneud yn fwy defnyddiadwy.<br><br>Dylai'r safle gael ei wella yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru<br><br>Ni chafwyd unrhyw drafferthion gyda'r safle | Nodwyd |
| Llifogydd | Pryder ynghylch llifogydd | Ystyrir y gellir rhoi sylw i'r perygl o lifogydd drwy wella'r system ar gyfer draenio dŵr wyneb |
| Cadwraeth natur | Cynefin honedig ar gyfer gwiwerod coch ac ystlumod | Derbyniwyd sylwadau gan Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth y Cyngor. Gallai'r bwriad i gael gwared |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar goed a llystyfiant a darparu goleuadau sbarduno'r angen i gynnal arolwg a'r angen am gamau lliniaru wrth ddylunio'r safle |
| Rhwystro hawl dramwy | Rhwystro hawl dramwy | Wrth ddylunio safle awdurdodedig, byddid yn cymryd unrhyw hawliau tramwy preifat i ystyriaeth. Byddai'r safle yn cael ei gynllunio a'i reoli i ganiatáu mynediad di-rwystr i gerbydau argyfwng i bob llain ac osgoi rhwystro'r hawliau tramwy preifat presennol. |
| Llygru'r cwrs dŵr | Pryder ynghylch llygru'r cwrs dŵr | O'r farn y gellir rhoi sylw i'r mater hwn trwy ddylunio a rheoli'r safle'n briodol. |
| Tresmasu ar dir cyfagos | Crybwyllwyd y posibilrwydd o achosion o dresmasu posibl | Nodwyd |
| Yr Iaith Gymraeg | Niwed i'r Iaith Gymraeg | Yr angen cyfredol yw darparu ar gyfer 4 o aelwydydd. O ystyried lefel isel yr angen, nid ystyrir y byddai'r defnydd arfaethedig yn niweidio'r iaith Gymraeg yn sylweddol. |
| Safleoedd eraill a awgrymwyd | Hen ysgolion sydd wedi cau Llanedwen<br>Tir Llwyd Parc Cybi ger y 'Truck Stop'<br>Mona<br>Penhesgyn<br>Pentre Berw<br>Stad Ddiwydiannol Llangefni neu Stad Ddiwydiannol arall ger Gorsaf yr Heddlu<br>Safle Shell, Amlwch<br>Stad Ddiwydiannol Four | Mae rhai o'r safleoedd hyn eisoes wedi cael eu hasesu. |

| | | |
|---|---|---|
| | Crosses<br>Porthaethwy<br>Llanfairpwll | |
| Pryder ynghylch edrychiad presennol y safle a glanweithdra gwael. | Pryder ynghylch edrychiad presennol y safle a glanweithdra gwael. | Byddai safle wedi'i gynllunio a'i reoli'n addas yn gwella ymddangosiad a glanweithdra'r safle presennol yn sylweddol. |
| Cefnogaeth i ddarparu safleoedd priodol | Cefnogaeth i ddarparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Nodwyd |
| Sylwadau cyffredinol | Dylai tenantiaid orfod ymrwymo i'r un rheolau â thenantiaid safleoedd carafannau masnachol | Nodwyd |
| Maint y safle | Dim lle i ehangu. | Nodwyd |

**Safle 2. Llain o dir ym Mân-ddaliad Gaerwen**

| **Prif Faterion a nodwyd gan yr ymatebwyr** | **Crynodeb o sylwadau gan ymatebwyr (trigolion)** | **Ymateb Swyddogion i'r sylwadau** |
|---|---|---|
| Carthffosiaeth / dŵr wyneb | Mae gan Gaerwen hanes o broblemau gyda dŵr wyneb | Byddai angen ymgynghori ymhellach |
| Pryderon priffyrdd | Effaith y datblygiad hwn yn ychwanegol at y Parc Gwyddoniaeth arfaethedig.<br><br>Nid yw'r briffordd un trac yn ddigon llydan i ddau gerbyd basio ei gilydd neu ar gyfer tynnu carafannau.<br><br>Byddai gwella'r briffordd yn niweidio cymeriad ac edrychiad yr ardal | Swyddogion priffyrdd wedi dweud y byddai angen gwella'r fynedfa a'r briffordd.<br><br>Angen trafodaethau pellach gyda Phriffyrdd ynglŷn â gwella'r fynedfa a'r briffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| Hyll – niweidiol i'r ardal | Mewn lleoliad uchel sy'n rhy agored ac amlwg. Yn ymyl golygfan i dwristiaid | Dim yn derbyn y byddai datblygu'r safle hwn ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn niweidiol i fwynderau gweledol yr ardal |
| Pellter i siopau a chyfleusterau | Rhy bell o'r siopau a chyfleusterau hanfodol | Mae siopau a chyfleusterau ar gael yng Ngaerwen |
| Addas ar gyfer plant | Diogel i blant | Nodwyd |
| Eraill / Amrywiol | Safleoedd eraill sydd ar gael – dim yn rhan o'r ymgynghoriad<br><br>Cynnig yn groes i'r bwriad i ddenu busnesau i'r Parc Gwyddoniaeth<br><br>Dim yn ddymunol cael Safle ST mor agos i'r Parc Gwyddoniaeth<br><br>Efallai y bydd angen y safle ar gyfer ehangu'r Parc Gwyddoniaeth<br><br>Rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau lleol | Nodwyd |
| Cefnogaeth ar gyfer y safle cyfredol | Teithwyr yn hapus ar y safle presennol. Pam eu symud o'r safle presennol? | Nodwyd |
| Iechyd a Diogelwch | Rhy agos at yr A55. Peryglus i blant wrth groesi'r ffordd i'r siop | Gweler sylwadau priffyrdd |
| Cefnogaeth ar gyfer safle Gaerwen | Gaerwen yw'r mwyaf addas o bell ffordd o safbwynt diogelwch. Mae lle ar y safle hwn i greu amgylchedd da ar gyfer teithwyr a byddai modd ei ehangu yn annhebyg i Safle Pentraeth | Nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| Amgylcheddol | Byddai unrhyw ddatblygiad yn niweidio cymeriad cynefin bywyd gwyllt yn yr ardal. Tir fferm agored. Ni fyddai'n darparu parhad neu safle wedi'i amgáu. Pryder y byddai'r safle, petai'n ehangu, yn cael effaith ar yr amgylchedd ac yn arwain at golli ychwaneg o dir ffermio. | Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth y Cyngor yn dweud nad yw'n ymddangos bod y safle o werth ecolegol mawr. Efallai y bydd angen camau lliniaru priodol wrth ddylunio os caiff ffosydd neu gyrsiau dŵr eu heffeithio. Dim yn derbyn y byddai datblygu'r safle hwn ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn niweidiol i fwynderau gweledol yr ardal |

